Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# ORDINHADAU
# PRIFYSGOL CYMRU: Y DRINDOD DEWI SANT

**Tachwedd 2022**

**ORDINHADAU PRIFYSGOL CYMRU: Y DRINDOD DEWI SANT**
**(“Y BRIFYSGOL”)**

## Tabl Cynnwys


**Rhaglith** ........ 4

**Ordinhad I: Diffiniadau a Dehongliadau** ........ 5

1. Diffiniadau ........ 5
2. Dehongliadau ........ 7

**Ordinhad II: Llywodraethu** ........ 8

1. Darpariaethau Cyffredinol a Gweithdrefn Llunio Ordinhadau ........ 8
2. Aelodaeth o’r Brifysgol ........ 8
3. Y Noddwr ........ 9
4. Y Llywydd ........ 9
5. Cadeirydd y Cyngor (Is-Lywydd), Is-Gadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion Pwyllgorau’r Cyngor ........ 9
6. Yr Ymwelydd ........ 11
7. Y Cyngor ........ 12
8. Cyfarfodydd y Cyngor ........ 16
9. Y Cod Ymarfer a’r Datganiad o Fuddiannau’r Aelodau ........ 20
10. Cadw a Defnyddio’r Sêl Gyffredin ........ 21
11. Y Senedd: Cyfansoddiad a Phwerau ........ 22
12. Pwyllgorau Sefydlog y Cyngor ........ 22
13. Gweithdrefnau ar gyfer y Cyngor, y Senedd a’u Pwyllgorau Sefydlog ........ 23
14. Penodi Clerc y Cyngor ........ 25
15. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Clerc y Cyngor ........ 25

**Ordinhad III: Academaidd** ........ 27

1. Yr Athrofeydd ac Unedau Academaidd ........ 27
2. Graddau a Dyfarniadau Eraill a Roddir gan y Brifysgol ........ 28
3. Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd y Brifysgol ........ 28
4. Cynulliadau ........ 29

**Ordinhad IV: Cyllid** ........ 30

1. Materion Ariannol ........ 30
2. Rheoli Risg ........ 30
3. Dirprwyo Pwerau a Chyfrifoldebau ........ 31
4. Cynllunio Ariannol ........ 31
5. Adroddiadau Ariannol, Cofnodion Cyfrifyddu a Gwybodaeth ........ 31
6. Cyllidebau a Dyrannu Adnoddau ........ 31

7. Ymateb i Honiadau o Dwyll, Llwgrwobrwyo ac achosion cysylltiedig o Afreoleidd-dra. 32
8. Rheoli Trysorlys y Grŵp 33
**Ordinhad V: Staff** **34**
1. Swyddogion y Brifysgol 34
2. Staff y Brifysgol 36
3. Cyfnod Prawf 37
4. Athrawon, Athrawon Cyswllt a Darllenwyr 37
5. Egwyddorion Cyffredinol Dehongli a Chymhwyso 37
6. Diswyddo, Gweithdrefnau Cwyno a Materion Cysylltiedig (Statud X, Rhan I) 38
7. Gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno 40
8. Datgeliadau er Lles y Cyhoedd 41
**Ordinhad VI: Myfyrwyr** **42**
1. Myfyrwyr y Brifysgol 42
2. Yr Undeb Myfyrwyr 43
3. Cod Disgyblaeth Myfyrwyr 43
4. Gweithdrefn ar gyfer Delio â Chwynion gan Fyfyrwyr 43
5. Cymdeithasau Cyn-fyfyrwyr 44
**Atodiad** **46**
1. Proses ar gyfer Penodi Athrawon, Athrawon Cyswllt a Darllenwyr 47

**Rhaglith**

Yn unol ag Erthyglau IV, V, a XXI ei Siarter Atodol o 2012, bydd gan Gyngor Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yr awdurdod i lunio, diwygio, diddymu neu ychwanegu at Ordinhadau er mwyn cyfarwyddo a rheoleiddio'r Brifysgol a'i haelodau.

Ni ddehonglir Ordinhadau mewn modd sy'n groes i'r Siarter a'r Statudau. Os cyfyd unrhyw amheuaeth ynghylch dehongliad Ordinhad, cyfeirir y mater at Gadeirydd y Cyngor neu'r Is-Gadeirydd neu at unigolyn arall a ddynodir gan Gadeirydd y Cyngor. Bydd penderfyniad Cadeirydd y Cyngor, a fydd yn ceisio cyngor gan yr Is-Ganghellor a Chlerc y Cyngor, yn derfynol.

Mae'r holl eiriau yn yr Ordinhadau yn dwyn yr un ystyr ag yn y Siarter a'r Statudau, oni nodir fel arall yn benodol.

Bydd Ordinhadau yn cael eu llunio, eu cadarnhau, eu diwygio neu eu diddymu gan y Cyngor yn unol ag Ordinhad II.1 ac fe'u hadolygir o leiaf unwaith bob 5 (pum) mlynedd.

**Ordinhad I: Diffiniadau a Dehongliadau**

**1. Diffiniadau**

**“Aelod Annibynnol”** - mae’n golygu unrhyw unigolyn a benodwyd neu a etholwyd i bwyllgor neu fwrdd y Brifysgol nad yw na Myfyriwr Cofrestredig nac aelod o Staff y Brifysgol. Mae **“Aelod Cyfetholedig”** yn golygu unrhyw unigolyn allanol i’r Brifysgol a benodir i’r Cyngor neu i Bwyllgor Sefydlog o’r Cyngor ond nad yw’n aelod annibynnol.

**“Aelod o’r Brifysgol”** - mae’n golygu aelod o’r Brifysgol fel y’i diffinnir yn y Statudau.

**“Athro Emeritws”** - mae’n golygu aelod o Staff Academaidd y Brifysgol y cyflwynwyd iddo ef/hi y teitl er anrhydedd Athro Emeritws, adeg ei ymddeoliad ef/hi neu wedi hynny.

**“Cyfreithiau’r Brifysgol”** - rhain yw’r Siarter, y Statudau, yr Ordinhadau, y Rheoliadau a’r holl Godau Ymarfer.

**“Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr”** - mae’n golygu cymdeithas gyfundrefnol o Raddedigion y Brifysgol.

**“Cyngor”** - mae’n golygu’r Cyngor a goruchaf gorff llywodraethu’r Brifysgol. Mae Cyngor y Brifysgol yn elfen allweddol o strwythur llywodraethu’r Brifysgol sy’n gyfrifol am strategaeth a goruchwyliaeth strategol o gymeriad a chenhadaeth academaidd, hyfywedd a gonestrwydd ariannol a dulliau cytbwys o ran rheoli risgiau. Mae’n beirniadu, yn trafod ac yn cadarnhau’r penderfyniadau allweddol sy’n llunio dyfodol y Brifysgol.

**“Cyrff statudol”** - mae’n cyfeirio at y Cyngor, y Senedd ac Athrofeydd Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

**“Deiliad cyllideb”** - mae’n golygu un o swyddogion y Brifysgol sydd ag atebolrwydd am swyddogaeth ddiffiniedig a/neu faes gweithgarwch gweithredu ac sy’n derbyn awdurdod dirprwyedig gan yr Is-Ganghellor er mwyn rheoli cyllideb a gytunwyd mewn modd sy’n gyson ag offerynnau statudol y Brifysgol.

**“Dileu swydd”** - bydd yn golygu’r un peth ag yn adran 139 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

**“Eitem gyfyngedig”** - mae’n golygu eitem a gyflwynir i’r Cyngor a/neu ei bwyllgorau sefydlog sy’n gyfrinachol i’r aelodau annibynnol a chyfetholedig, fel arfer gan ei fod yn fater sy’n ymwneud ag aelod o staff unigol neu fyfyriwr unigol.

**“Eitem neilltuedig”** – mae’n golygu eitem a gyflwynir i’r Cyngor a/neu ei bwyllgorau sefydlog sy’n gyfrinachol i aelodau.

**“Llywydd Undeb y Myfyrwyr”** - mae’n golygu’r swyddog sabothol a etholwyd yn briodol gan y Corff Myfyrwyr i arwain yr Undeb Myfyrwyr, fel y’i sefydlwyd gan Erthygl XIV y Siarter.

**“Myfyriwr Cofrestredig”** - mae’n golygu unrhyw unigolyn sy’n gofrestredig yn gyfredol i dderbyn hyfforddiant yn y Brifysgol.

**“Myfyriwr Ôl-raddedig Cofrestredig”** - mae’n golygu unrhyw unigolyn sy’n gofrestredig yn gyfredol i dderbyn hyfforddiant ar raglen ôl-raddedig yn y Brifysgol.

**“Penderfyniad Arbennig”** - mae’n golygu penderfyniad gan y Cyngor a gafodd ei basio a’i gadarnhau’n unol ag Erthygl XIX y Siarter. Fel arfer ystyrir bod penderfyniad yn ‘arbennig’ pan fydd yn ymwneud â newid arwyddocaol neu sylweddol megis newid cyfansoddiad yr endid

corfforaethol, cynnig i uno â chorfforaeth arall neu ddiddymu'r gorfforaeth neu ei dirwyn i ben. Rhaid i benderfyniad arbennig beidio ag atal na rhwystro fel arall ymatebolrwydd y sefydliad, h.y. efallai bydd rhaid pasio penderfyniad cyffredin y gall fod angen ei ailddatgan yn benderfyniad arbennig mewn cyfarfod dilynol o'r Cyngor.

**"Penderfyniad Cyffredin"** - mae'n golygu penderfyniad a basiwyd mewn un cyfarfod o'r Cyngor drwy fwyafrif syml o'r rheini sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

**"Prif Reoleiddiwr"** - mae'n golygu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu gorff arall o'r fath a gaiff ei bennu gan Senedd Cymru neu ag a bennir yn brif reoleiddiwr y Brifysgol drwy reoliadau a lunnir yn unol â Deddf Elusennau 2011.

**"Prif Uned Academaidd"**- mae'n golygu uned neu strwythur trefniadol arall o fewn Athrofa fel y'i diffinnir yn yr Ordinhadau.

**"Prifysgol"** - mae'n golygu Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

**"Senedd"** - mae'n golygu Senedd y Brifysgol, sef goruchaf awdurdod academaidd y sefydliad.

**"Sesiwn Prifysgol"** - mae'n golygu'r cyfnod dysgu, addysgu ac asesu a bennir gan y Cyngor ac a ddiffinnir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd**.**

**"Siarter"** - mae'n cyfeirio at Siarter Atodol 2012.

**"Staff"** - mae'n golygu'r holl bobl sy'n cael eu cyflogi i wasanaethu'r Brifysgol. Mae **"Staff Academaidd"** yn golygu'r rheini a gyflogir dan amodau cyflogaeth y Brifysgol ar gyfer Staff Addysgu Academaidd, gan gynnwys Staff Academaidd sydd â phenodiad cyfredol yn Athro, Athro Cyswllt, Darllenydd, Uwch Ddarlithydd, Darlithydd yn y Brifysgol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr neu benodiad arall o'r fath a benderfynir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd drwy Ordinhad.

**"Swydd"** - mae'n golygu rôl neu gyfrifoldeb penodol o fewn neu ar ran y Brifysgol ac mae **"Swyddog"** yn golygu'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r rôl honno neu'r cyfrifoldeb hwnnw.

**"Unigolyn Graddedig"** - mae'n golygu unigolyn y cyflwynwyd Gradd, Diploma neu Dystysgrif y Brifysgol iddo ef/hi.

**"Uwch Gyfarwyddiaeth y Brifysgol"** - mae'n golygu uwch gyfarwyddiaeth y Brifysgol yn unol â phenderfyniad yr Is-Ganghellor o bryd i'w gilydd.

## 2. Dehongliadau

Dehonglir yr Ordinhadau hyn mewn modd nad yw'n groes i'r Siarter na'r Statudau.

Bydd geiriau a ddiffinnir yn yr Ordinhadau hyn â'r un ystyr ag yn y Siarter, y Statudau a'r Rheoliadau oni nodir fel arall yn benodol.

Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddfwriaeth Brifysgol yn yr un modd ag y mae'n berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol neu Ddeddf Senedd Cymru.

Bydd geiriau sy'n mynegi'r unigol yn cynnwys y lluosog a vice versa.

Gallai cyfeiriadau at swyddi penodol adlewyrchu teitlau swyddi cyfredol ond mae cyfeiriadau o'r fath at y swyddogaeth ac nid at rôl gyfredol neu yn y dyfodol, a allai newid, yn unol â phenderfyniad yr Is-Ganghellor o bryd i'w gilydd.

Bydd Siarter, Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau a holl Godau Ymarfer y Brifysgol yn berthnasol i holl aelodau'r Brifysgol, fel y'i diffinnir yn Statud V.

**Ordinhad II: Llywodraethu**

**1. Darpariaethau Cyffredinol a Gweithdrefn Llunio Ordinhadau**

(i) Gellir llunio, cadarnhau, diwygio neu ddiddymu ordinhadau, yn unol â darpariaethau Statud XII, mewn cyfarfod o'r Cyngor â chworwm, yn unol â darpariaethau Statud V, ar yr amod y rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig o 14 (bedwar ar ddeg) o ddiwrnodau o'r cynnig ac ar yr amod y caiff y Penderfyniad ei basio gan fwyafrif o nid llai na thri chwarter y rheini sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

**2. Aelodaeth o'r Brifysgol**

(i) Yn unol ag Erthygl V ei Siarter Atodol o 2012, bydd gan Gyngor Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yr awdurdod i nodi pwy fydd yn aelodau o'r Brifysgol.

(ii) Bydd y canlynol yn aelodau o'r Brifysgol:

- Y Noddwr;
- Y Llywydd;
- Y Swyddogion, sef yr Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion, y Pro Is-Gangellorion, a deiliaid swyddi eraill y bydd y Cyngor yn eu pennu o bryd i'w gilydd;
- Aelodau o'r Cyngor;
- y Staff a fu gynt yn aelodau o staff Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan; Coleg y Drindod Caerfyrddin; Coleg Prifysgol y Drindod; neu Brifysgol Fetropolitan Abertawe;
- Cymrodyr er Anrhydedd ac eraill y dyfarnwyd cymrodoriaethau er anrhydedd iddynt ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan (a'i rhagflaenyddion); Coleg y Drindod Caerfyrddin; Coleg Prifysgol y Drindod; a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe (a'i rhagflaenyddion);
- Athrawon er Anrhydedd ac eraill y dyfarnwyd teitlau er anrhydedd iddynt ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan (a'i rhagflaenyddion); Coleg y Drindod Caerfyrddin; Coleg Prifysgol y Drindod; a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe (a'i rhagflaenyddion);
- pob unigolyn sydd â chontract cyflogaeth ysgrifenedig gyda Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant; Coleg Prifysgol y Drindod; neu Brifysgol Fetropolitan Abertawe;
- Graddedigion Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant;
- Graddedigion Prifysgol Cymru a fu gynt yn aelodau o Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan (a'i rhagflaenyddion); Coleg y Drindod Caerfyrddin; Coleg Prifysgol y Drindod; neu Brifysgol Fetropolitan Abertawe (a'i rhagflaenyddion); ac
- y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau astudio o fewn Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

(iii) Bydd aelodaeth o Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn parhau i aelodau unigol cyhyd ag y bo o leiaf 1 (un) o'r amodau uchod yn cael ei ddiwallu.

(iv) Yn ychwanegol at y categorïau hynny o bobl a ddynodwyd yn Aelodau o'r Brifysgol, caiff y Cyngor roi aelodaeth o'r Brifysgol i bobl eraill neu gategorïau eraill o bobl.

(v) Gellir gwneud cynigion ar gyfer aelodaeth ychwanegol o'r fath i'r Cyngor ar yr amod:

a) Y gwneir unrhyw gynnig o'r fath yn ysgrifenedig gyda chyfiawnhad ategol i Glerc y Cyngor; ac

b) Y ceisia Clerc y Cyngor farn y Senedd a'r Uwch Gyfarwyddiaeth, fel y bo'n briodol, cyn cyflwyno'r cynnig i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i'w ystyried a'i argymell i'r Cyngor.

(vi) Bydd Clerc y Cyngor yn cynnal cofnod ffurfiol o bob penderfyniad gan y Cyngor ynghylch cynigion o'r fath i gyflwyno statws Aelodaeth o'r Brifysgol.

(vii) Ar gais aelod, bydd y gallu gan y Cyngor i ryddhau'r person hwnnw o aelodaeth o'r Brifysgol, yn amodol ar y person hwnnw'n cytuno i barhau i ufuddhau i Siarter, Statudau, Ordinhadau a Rheoliadau'r Brifysgol.

(viii) Nid oes unrhyw arwyddocâd cyfreithiol i Aelodaeth o Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant ac nid yw'n trosglwyddo unrhyw hawliau, breintiau na rhwymedigaethau ac eithrio'r hyn a nodir yn y Siarter a'r Statudau.

## 3. Y Noddwr

(i) Penodir Noddwr y Brifysgol gan y Cyngor dan weithdrefnau a bennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

(ii) Caiff y Noddwr weinyddu mewn unrhyw gynulliad seremonïol o'r Brifysgol. Prif gyfrifoldebau'r Noddwr yw:

a) Bod yn Llysgennad i'r Brifysgol;

b) Darparu cyngor a chyfarwyddyd ar fentrau strategol allweddol o arwyddocâd cenedlaethol; a

c) Hwyluso, fel y bo'n briodol, ddatblygiad cynghreiriau strategol sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at ddatblygu a chyflawni cenhadaeth y Brifysgol.

## 4. Y Llywydd

(i) Fel arfer penodir Llywydd y Brifysgol gan y Cyngor dan weithdrefnau a bennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

(ii) Pennir prif gyfrifoldebau'r Llywydd gan y Cyngor.

## 5. Cadeirydd y Cyngor (Is-Lywydd), Is-Gadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor

### a) Cadeirydd y Cyngor (Is-Lywydd)

(i) Ceir Cadeirydd y Cyngor a fydd hefyd yn Is-Lywydd y Brifysgol. Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor.

(ii) Fel arfer bydd y Cadeirydd yn dal ei swydd am gyfnod o nid mwy na 4 (phedair) blynedd ac fel arfer bydd yn gymwys i'w ailbenodi am 1 (un) cyfnod pellach fel arfer.

(iii) Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu fydd yn dethol pobl yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer swydd y Cadeirydd ac Is-Lywydd.

(iv) Gellir gwneud enwebiadau i'r Cyngor drwy Glerc y Cyngor. At hynny, bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystyried pobl eraill sy'n gwneud cais yn dilyn hysbysebu'r swydd wag yn gyhoeddus.

(v) Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystyried yr holl ymgeiswyr a ddaw i'r golwg drwy'r darpariaethau uchod a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor yn argymell 1 (un) person i'w benodi gan y Cyngor.

(vi) Prif gyfrifoldebau'r Cadeirydd fydd y canlynol:

a) arwain y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn ymarfer ei Brif Gyfrifoldebau ac yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithlon ac yn unol â rheolau'r Brifysgol ac egwyddorion llywodraethu da;

b) gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol y Brifysgol yn allanol ac mewn digwyddiadau seremonïol;

c) creu perthynas waith adeiladol â'r Is-Ganghellor, gan gydnabod gwahaniad priodol rhwng llywodraethu a rheoli ac osgoi ymwneud â'r gwaith o reoli'r Brifysgol o ddydd i ddydd;

d) bod yn gyfrifol am adolygu perfformiad yr Is-Ganghellor a Chlerc y Cyngor a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Taliadau yn unol â hynny.

**b) Penodi Is-Gadeirydd y Cyngor**

(i) Bydd Clerc y Cyngor yn ceisio enwebiadau am rôl Is-Gadeirydd y Cyngor o blith aelodau annibynnol y Cyngor.

(ii) Pan fo ond 2 (dau) ymgeisydd am y rôl, rhaid i'r cynnig gael ei eilio gan aelod annibynnol arall. Os oes mwy na 2 (dau) ymgeisydd, gwneir penodiad drwy bleidlais gudd o aelodau o'r Cyngor. Os bydd y bleidlais yn gyfartal, Cadeirydd y Cyngor fydd yn penderfynu'r canlyniad.

(iii) Fel arfer bydd yr Is-Gadeirydd yn dal ei swydd am gyfnod o nid mwy na 4 (phedair) blynedd, ac fel arfer bydd yn gymwys i'w ailbenodi am 1 (un) cyfnod pellach fel arfer.

(iv) Prif gyfrifoldebau'r Is-Gadeirydd fydd y canlynol:

a) darparu cymorth i'r Cadeirydd wrth arwain y Cyngor;

b) dirprwyo ar ran y Cadeirydd ar yr achlysuron hynny pan fydd y Cadeirydd yn absennol, a allai gynnwys cadeirio cyfarfodydd, gweithio gyda'r Is-Ganghellor a gwneud penderfyniadau yn unol â'r Cynllun Dirprwyo;

c) gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol y Brifysgol yn allanol ac mewn digwyddiadau seremonïol.

### c) Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor

(i) Bydd y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo enwau'r aelodau hynny sy'n gymwys ac a argymhellir gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ar gyfer rolau Cadeiryddion Pwyllgorau Sefydlog y Cyngor.

(ii) Gellir ystyried aelod annibynnol o'r Cyngor am rôl y Cadeirydd ar gyfer mwy nag 1 (un) Pwyllgor Sefydlog, yn amodol ar y canlynol:

Ni fydd Cadeirydd y Cyngor yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau.

Ni fydd Cadeirydd y Cyngor yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Ni chaiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod yn Gadeirydd unrhyw Bwyllgor Sefydlog arall nac yn aelod o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

(iii) Er mwyn parhad disgwylir i Gadeirydd unrhyw Bwyllgor Sefydlog o'r Cyngor barhau yn y rôl honno am o leiaf 3 (tair) blynedd, ond fel arfer ni fydd y cyfnod hwyaf yn ei swydd yn fwy na 6 (chwe) blynedd, heb gynnwys unrhyw gyfnod o lai na blwyddyn pryd yr oedd y swydd yn wag oherwydd marwolaeth, anhwylder neu ymddiswyddiad y deiliad swydd blaenorol.

(iv) Ni fydd yr Is-Ganghellor, aelodau staff y Cyngor ac aelod-fyfyrwyr o'r Cyngor yn gymwys i'w hethol yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd y Cyngor, ond maent yn gymwys i bleidleisio mewn unrhyw etholiad o'r fath.

(v) Gellir symud Cadeirydd y Cyngor neu Is-Gadeirydd y Cyngor o'i swydd drwy Benderfyniad Arbennig gan y Cyngor ar yr amod y cynhwysir hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw, wedi'i lofnodi gan o leiaf bum aelod o'r Cyngor, gyda'r hysbysiad o'r cyfarfod ac y dosberthir hwn nid llai na 14 (phedwar ar ddeg) o ddiwrnodau cyn dyddiad y cyfarfod, fel y'i nodir yn Erthygl XIX y Siarter. Rhaid i'r Penderfyniad i symud Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Cyngor o'i swydd gael ei basio gan fwyafrif o nid llai na thri chwarter y rheini sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

(vi) Os bydd Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Cyngor neu Gadeirydd Pwyllgor Sefydlog yn ymddiswyddo o'r swydd honno, neu os daw ei aelodaeth i ben, neu os caiff ei symud o'i swydd, penodir Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Cyngor neu Gadeirydd Pwyllgor Sefydlog newydd i wasanaethu am weddill y cyfnod hwnnw yn y swydd, yn dilyn argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

(vii) Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion Pwyllgorau Sefydlog yn aros yn eu swyddi tan ddiwedd eu cyfnodau priodol a than y penodir olynwyr yn unol â'r broses uchod.

## 6. Yr Ymwelydd

(i) Ymwelydd y Brifysgol fydd yr Hybarch Dad yn Nuw, Arglwydd Esgob Tyddewi am y tro neu'r cyfryw aelod o Dŷ'r Arglwyddi neu aelod neu gyn-aelod o'r farnwriaeth ag y bydd yr Arglwydd Esgob yn ei enwebu.

(ii) Nid oes awdurdodaeth gan yr Ymwelydd ynghylch cwynion myfyrwyr bellach, gan fod cyfrifoldeb am hynny wedi'i drosglwyddo i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch drwy Ddeddf Addysg Uwch 2004.

(iii) Ar gais y Cyngor (neu Gadeirydd y Cyngor, neu Is-Gadeirydd y Cyngor yn gweithredu dan bwerau dirprwyedig) caiff yr Ymwelydd ddarparu cyngor er mwyn egluro materion yn gysylltiedig ag Erthygl III.1.c y Siarter a threftadaeth Anglicanaidd y Brifysgol.

## 7. Y Cyngor

### a) Datganiad o Brif Gyfrifoldebau'r Cyngor

Rhoddir pwerau'r Cyngor gan Erthygl IV y Siarter a Statud VI.

Mae'r prif gyfrifoldebau fel a ganlyn:

(i) Pennu cymeriad a chenhadaeth addysgol y Brifysgol a goruchwylio ei gweithgareddau;

(ii) Solfedd y sefydliad, defnyddio'i adnoddau'n effeithiol ac effeithlon a diogelu'i asedau;

(iii) Cymeradwyo amcangyfrifon incwm a gwariant blynyddol;

(iv) Penodi, graddio, gwahardd, diswyddo a phennu cyflog ac amodau gwasanaeth yr Is-Ganghellor a Chlerc y Cyngor, a chymeradwyo penodi'r Dirprwy Is-Gangellorion a'r Pro Is-Gangellorion;

(v) Pennu fframwaith cyflog ac amodau ar gyfer yr holl staff eraill;

(vi) Penodi archwilwyr allanol a mewnol yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

### b) Maint a Chyfansoddiad y Cyngor

Bydd Cyngor y Brifysgol yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Cadeirydd y Cyngor a fydd hefyd yn Is-Lywydd y Brifysgol;
- Yr Is-Ganghellor;
- Nid mwy na 2 (dau) aelod-fyfyriwr y'u hetholwyd yn swyddogion sabothol gan y Corff Myfyrwyr;
- Nid mwy na 3 (thri) aelod o'r Staff Academaidd a etholir gan y staff academaidd;
- Nid mwy nag 1 (un) aelod o Staff Anacademaidd a etholir gan y staff anacademaidd;
- Nid mwy na 14 (phedwar ar ddeg) aelod neu nifer cyffelyb nad ydynt yn weithwyr cyflogedig, myfyrwyr neu aelodau o'r Brifysgol.

Fel arfer, ni fydd cyfanswm yr aelodau o'r Cyngor yn fwy na 22 (dau ar hugain).

Yn unol â'r Weithred a wnaethpwyd rhwng y Brifysgol a Phrifysgol Cymru ar 18 Awst 2017, bydd Cynghorau'r ddwy Brifysgol, a'u Pwyllgorau yn cynnwys craidd cyffredin o

lywodraethwyr, yn gyson yn unig â'r gofyniad dan gyfraith elusennau i allu cynnal cyfarfodydd dilys â chworwm o'r pwyllgorau gyda chworymau nad ydynt yn gwrthdaro.

**c) Penodi Aelodau Annibynnol o'r Cyngor**

(i) Seilir enwebiadau i lenwi unrhyw swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol o'r Cyngor ar drafodaethau'r Cyngor ynghylch sgiliau, profiad a diddordebau angenrheidiol, yn ogystal ag amseriad unrhyw benodiadau, yn enwedig er mwyn sicrhau bod penodiadau'n gorgyffwrdd er mwyn i sgiliau a phrofiad newydd fod ar gael i gefnogi'r Cyngor yn unol â'r arfer gorau a argymhellir.

(ii) Rheolir proses gwneud unrhyw benodiadau newydd gan Glerc y Cyngor yn unol â phroses rheoli unrhyw swydd wag. Ystyrir enwebiadau a cheisiadau a dderbynnir trwy broses a gytunir gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a fydd yn cyflwyno argymhellion i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

(iii) At hynny, gellir cyfethol unigolion, naill ai drwy enwebiad neu broses o wneud cais (fel y bo'n briodol i'r gofyniad), i Bwyllgorau Sefydlog. Penodir aelodau cyfetholedig ar sail eu profiad a/neu eu harbenigedd penodol, yn dilyn angen a ddynodwyd gan y Cyngor (neu'r Cadeirydd neu Is-Gadeirydd yn gweithredu dan bwerau dirprwyedig) a/neu argymhelliad gan yr Is-Ganghellor, a gefnogir gan y Cadeirydd ac a gymeradwyir gan y Cyngor, fel y bo'n briodol.

(iv) Nid yw unrhyw unigolyn a gyflogir yn y Brifysgol (boed hynny fel academydd neu beidio) neu sy'n fyfyriwr yn y Brifysgol yn gymwys i'w benodi'n aelod annibynnol o'r Cyngor.

(v) Nid yw unigolyn fel arfer yn gymwys i'w benodi fel aelod annibynnol o'r Cyngor os yw'r unigolyn yn weithiwr cyflogedig, neu wedi bod yn weithiwr cyflogedig i'r Brifysgol neu un o'i his-gwmnïau yn ystod y pum mlynedd diwethaf; os oes ganddo, neu os oedd ganddo o fewn y tair blynedd diwethaf berthynas busnes materol berthnasol â'r Brifysgol, naill ai'n uniongyrchol neu fel partner, cyfranddaliwr, cyfarwyddwr neu uwch weithiwr cyflogedig i gwmni sydd â pherthynas o'r fath â'r Brifysgol; os yw eisoes wedi gwasanaethau ar y Cyngor yn flaenorol; os yw wedi derbyn neu os yw'n derbyn tâl ychwanegol gan y Brifysgol ar wahân i dreuliau dilys; os yw'n derbyn pensiwn y Brifysgol; os oes ganddo glymau teuluol agos ag unrhyw un o gynghorwyr, cyfarwyddwyr neu uwch weithwyr cyflogedig y Brifysgol; os oes ganddo gysylltiadau proffesiynol, masnachol neu bersonol sylweddol ag aelodau eraill o'r Cyngor; neu os yw'n penderfynu cynnal gwaith ymgynghori â thâl mewn busnes sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r brifysgol tra bydd yn aelod o'r Cyngor.

(vi) Pan ddaw swydd ar gyfer aelod annibynnol o'r Cyngor yn wag o fewn cyfnod o 12 (deuddeg) mis, bydd y Cyngor naill ai'n ailbenodi'r deiliad cyfredol neu'n penodi aelod newydd o'r Cyngor, fel arfer o leiaf 2 (dau) fis ond nid mwy na 8 (wyth) mis cyn i gyfnod yr aelod cyfredol o'r Cyngor yn ei swydd ddod i ben.

(vii) Pan ddaw swydd yn wag heblaw am oherwydd diwedd cyfnod aelod o'r Cyngor yn ei swydd, bydd y Cyngor fel arfer yn cymeradwyo penodi olynydd o fewn 4 (pedwar) mis i'r swydd ddod yn wag.

(viii) Y Cyngor fydd yn penderfynu ynghylch unrhyw gwestiwn a yw unrhyw unigolyn yn gymwys yn unol â darpariaethau'r Ordinhadau hyn i'w benodi'n aelod o'r Cyngor o unrhyw ddisgrifiad neu gategori.

(ix) Bydd y Clerc yn sicrhau y darperir rhaglen gynefino briodol i aelodau annibynnol.

**d) Ethol Aelodau Staff i'r Cyngor**

(i) Yn unol â Statud IV, bydd yr Is-Ganghellor yn gwahodd enwebiadau i'r Cyngor am nid mwy na 3 (thri) aelod o'r corff academaidd ac am nid mwy nag 1 (un) aelod o'r corff anacademaidd. Wrth wahodd enwebiadau pan fydd swyddi gwag yn codi, caiff yr Is-Ganghellor, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, bennu bod enwebiadau wedi'u lleoli mewn campysau neu ganolfannau dysgu penodol.

(ii) Enwebir aelodau academaidd o'r Cyngor gan aelodau o staff academaidd y Brifysgol.

(iii) Anfonir cyfathrebiad electronig at holl aelodau'r staff academaidd gan wahodd enwebiadau i'w hethol i'r Cyngor.

(iv) Gwneir papur pleidleisio, ag enwau'r holl bobl sy'n dymuno cael eu hystyried, ar gael yn electronig i holl aelodau'r staff academaidd gan ofyn am fwrw un bleidlais o blaid un o'r enwebiadau.

(v) Bydd gan bob unigolyn un bleidlais yn unig gydag aelodau o'r staff academaidd yn unig yn gymwys i bleidleisio.

(vi) Pan fydd pleidlais wedi'i chynnal, caiff yr aelod Staff Academaidd a etholwyd ei gyflwyno a'i gadarnhau gan y Cyngor ar y cyfle cyntaf.

(vii) Enwebir aelodau Anacademaidd o'r Cyngor gan aelodau o staff Anacademaidd y Brifysgol.

(viii) Anfonir cyfathrebiad electronig at holl aelodau'r staff anacademaidd gan wahodd enwebiadau i'w hethol i'r Cyngor.

(ix) Gwneir papur pleidleisio, ag enwau'r holl bobl sy'n dymuno cael eu hystyried, ar gael yn electronig i holl aelodau'r staff anacademaidd gan ofyn am fwrw un bleidlais o blaid un o'r enwebiadau.

(x) Darperir ar gyfer cyfathrebiadau a mynediad i bleidleisio i staff nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur.

(xi) Bydd gan bob unigolyn un bleidlais yn unig gydag aelodau o'r staff anacademaidd yn unig yn gymwys i bleidleisio.

(xii) Pan fydd pleidlais wedi'i chynnal, caiff yr aelod staff anacademaidd a etholwyd ei gyflwyno a'i gadarnhau gan y Cyngor ar y cyfle cyntaf.

(xiii) Bydd y Clerc yn sicrhau y darperir rhaglen gynefino briodol i aelodau staff.

**e) Cyfnodau Aelodau o'r Cyngor yn eu Swyddi**

(i) Oni phenderfynir yn wahanol gan y Cyngor o'i benodi neu ei ailbenodi, ac ar wahân i'r Cyngor cychwynnol a benodir fel y'i nodir uchod, penodir aelodau annibynnol am gyfnod o 4 (bedair) blynedd a gellir eu hailbenodi wedi hynny

am gyfnod pellach o 4 (bedair) blynedd. Gall y Cyngor gymeradwyo drwy Benderfyniad Arbennig argymhelliad gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu y caiff aelod annibynnol o'r Cyngor sydd wedi gwasanaethu am ddau gyfnod yn olynol, fel achos arbennig, barhau i wasanaethu'n aelod o'r Cyngor am gyfnod i'w bennu gan y Cyngor, ar yr amod bod y sail dros wneud eithriad i'r gofynion arferol yn cael ei chofnodi bob amser yng nghofnodion y cyfarfod o'r Cyngor y cymeradwyir yr argymhelliad ynddo.

(ii) Bydd yr Is-Ganghellor yn parhau'n aelod ex officio o'r Cyngor gydol ei gyfnod neu ei chyfnod yn y swydd.

(iii) Bydd unrhyw aelod-fyfyriwr o'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o 1 (un) flwyddyn ac wedyn gellir ymestyn hwn hyd at gyfnod o 4 (bedair) blynedd, neu cyhyd â bod y myfyriwr yn parhau'n aelod o'r Brifysgol.

(iv) Bydd unrhyw aelod staff o'r Cyngor yn gwasanaethu am 4 (bedair) blynedd, yn effeithiol o ddechrau'r sesiwn Prifysgol yn union ar ôl ei benodiad ac ni fydd fel arfer yn gymwys i'w ailbenodi.

**f) Terfynu Aelodaeth o'r Cyngor**

(i) Gall aelodau o'r Cyngor ymddiswyddo o'u haelodaeth neu o'u swydd ar unrhyw adeg drwy hysbysiad ysgrifenedig at Glerc y Cyngor, ac ar hynny daw eu haelodaeth neu eu swydd yn wag o ddyddiad derbyn yr hysbysiad neu ddyddiad yr ymddiswyddo a nodir ynddo, pa un bynnag yw'r hwyraf.

(ii) Os yw'r Cyngor yn fodlon ar unrhyw adeg fod unrhyw aelod o'r Cyngor:

- wedi bod yn absennol o gyfarfodydd y Cyngor am gyfnod o 12 (ddeuddeg) mis heb ganiatâd y Cyngor, neu
- fel arall heb y gallu neu heb fod yn ddigon iach i gyflawni swyddogaethau aelod, neu
- yn peidio â bodloni'r meini prawf cyfreithiol er mwyn gwasanaethu fel ymddiriedolwr y Brifysgol, neu
- mewn perthynas ag aelodau annibynnol, yn peidio â bod yn gymwys o dan delerau Ordinhad 7 c) v);

gall y Cyngor symud yr aelod hwnnw o'i swydd drwy hysbysiad ysgrifenedig at yr aelod hwnnw ac ar hynny daw'r swydd yn wag.

(iii) Pan fo aelod o'r Cyngor hefyd yn aelod o staff neu'n fyfyriwr yn y Brifysgol a daw ei gyflogaeth neu ei gofrestriad gyda'r Brifysgol i ben cyn i'w gyfnod yn y swydd fel aelod o'r Cyngor ddod i ben, daw'r swydd yn wag a gellir ailbenodi'n unol â'r Ordinhadau hyn.

**g) Dirprwyo Pwerau'r Cyngor**

(i) Bydd y Cyngor a'i Bwyllgorau Sefydlog yn cynnal eu busnes yn unol â Siarter y Brifysgol; Statudau; Ordinhadau; Strwythur Pwyllgorau Cymeradwy; Rheoliadau Academaidd ac Ariannol Cymeradwy; a Thelerau ac Amodau Cyllido'r Prif Reoleiddiwr.

(ii) Gall Cyngor y Brifysgol ddirprwyo swyddogaethau ac awdurdod ar yr amod:

- Na fydd y dirprwyo'n anghydnaws â thelerau Siarter, Statudau, Ordinhadau a Rheoliadau'r Brifysgol;
- Y nodir telerau'r awdurdod dirprwyedig yn eglur mewn Cynllun Dirprwyo a gymeradwyir yn flynyddol gan y Cyngor.

(iii) Ni chaiff y Cyngor ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau a'r swyddogaethau a nodir yn Erthygl XI y Siarter.

## 8. Cyfarfodydd y Cyngor

### a) Amlder Cyfarfodydd

(i) Bydd y Cyngor yn cwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn ar y dyddiad gosodedig y bydd y Cyngor yn ei benderfynu ymlaen llaw ac os nad yw dyddiad o'r fath wedi'i benderfynu, ar ddyddiad a fydd yn caniatáu hysbysiad ysgrifenedig o nid llai na 7 (saith) diwrnod clir.

(ii) Rhaid i gyfarfod arbennig o'r Cyngor gael ei alw gan Glerc y Cyngor o fewn 7 (saith) diwrnod clir i dderbyn cais ysgrifenedig gan Gadeirydd y Cyngor, neu 5 (bum) aelod o'r Cyngor, neu Archwilio Mewnol a/neu Allanol, er mwyn trafod y busnes a ddynodir yn y cais yn unig.

(iii) Yn achos unrhyw gyfarfod lle yr ystyrir Penderfyniad Arbennig, rhaid cael hysbysiad o'r penderfyniad o leiaf 14 (bedwar ar ddeg) o ddiwrnodau cyn y cyfarfod, fel y'i nodir yn Erthygl XIX y Siarter.

### b) Cworwm ar gyfer Cyfarfodydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau

(i) Bydd cworwm cyfarfodydd o'r Cyngor fel arfer yn 10 (ddeg) aelod, ar yr amod y ceir bob amser fwyafrif o aelodau annibynnol, nad ydynt yn weithwyr cyflogedig nac yn fyfyrwyr yn y Brifysgol, yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio.

(ii) Yn absenoldeb cworwm, bydd Cadeirydd y Cyngor yn cau'r cyfarfod a chaiff alw cyfarfod arbennig i ddelio â'r busnes a bennwyd ar gyfer y cyfarfod gwreiddiol, fel y'i caniateir dan Statud V.

(iii) Bydd y cworwm ar gyfer cyfarfodydd unrhyw Bwyllgor o'r Cyngor yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor gyda mwyafrif yn aelodau annibynnol o'r Cyngor.

### c) Galw Cyfarfodydd a Threfn Busnes ar gyfer Cyfarfodydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau

(i) Gelwir pob cyfarfod drwy hysbysiad ysgrifenedig at bob aelod o'r Cyngor neu at bob aelod o Bwyllgor, fel y bo'n briodol, gan nodi lleoliad, diwrnod ac awr y cyfarfod a'r materion sydd i'w trafod. Anfonir hysbysiad o'r fath 7 (saith) diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod oni bai bod natur yr amgylchiadau gyfryw, ym marn y Cadeirydd, fel bod rhaid galw'r cyfarfod gyda llai o hysbysiad.

(ii) Ni fydd galw cyfarfod o'r Cyngor neu unrhyw Bwyllgor o'r Cyngor na'u trafodion yn annilys oherwydd unrhyw le gwag yn nifer yr aelodau o'r Cyngor neu unrhyw ddiffyg nad oedd yn hysbys ar y pryd o ran ethol, penodi neu gymwysterau

unrhyw aelodau o’r Cyngor, neu unrhyw ddiffyg damweiniol o ran anfon hysbysiad o gyfarfod, neu os yw unrhyw aelod o’r Cyngor heb dderbyn hysbysiad o gyfarfod.

(iii) Bydd Clerc y Cyngor yn nodi hysbysiad o’r holl faterion sydd i’w trafod ar bob Agenda, ac eithrio y caiff y Cadeirydd, mewn amgylchiadau eithriadol, gynnig gosod mater brys gerbron y Cyngor neu’r Pwyllgor a chaiff y Cyngor neu’r Pwyllgor gytuno i ystyried mater o’r fath.

(iv) Gall unrhyw aelod o’r Cyngor wneud cais ysgrifenedig i’r Clerc i gynnwys eitem ar Agenda’r cyfarfod nesaf o’r Cyngor. Yn yr un modd, caiff aelod o Bwyllgor o’r Cyngor wneud cais ysgrifenedig i’r Clerc i gynnwys eitem ar Agenda’r cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor.

(v) Rhaid i bob mater i’w gynnwys ar yr Agenda fel arfer gael ei dderbyn gan y Clerc nid llai na 10 (deg) diwrnod clir cyn dyddiad arfaethedig cyfarfod.

(vi) Anfonir Agenda cyfarfod, cofnodion y cyfarfod blaenorol a chynifer o’r papurau ag sy’n ymarferol at bob aelod gan y Clerc nid llai na 7 (saith) diwrnod clir cyn y cyfarfod. Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, ac yn amodol ar gytundeb y cyfarfod, y gosodir papur gerbron.

(vii) Ac eithrio mater brys a osodir gerbron cyfarfod drwy gytundeb y Cadeirydd a’r aelodau, ni thrafodir unrhyw fater mewn cyfarfod ac eithrio’r hyn a nodir ar yr Agenda.

(viii) Fel arfer bydd trefn busnes cyfarfodydd cyffredin fel a ganlyn:

- Dewis aelod i gymryd y Gadair pe bai’r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd yn absennol;
- Nodi unrhyw wrthdaro buddiannau;
- Delio ag unrhyw faterion yn gysylltiedig ag aelodaeth o’r Cyngor;
- Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod cyffredin blaenorol o’r Cyngor fel cofnod cywir a chofnodion unrhyw gyfarfod arbennig dilynol;
- Delio ag unrhyw faterion sy’n codi o gofnodion y cyfarfod(ydd) blaenorol;
- Derbyn unrhyw adroddiad gan Gadeirydd y Cyngor;
- Ystyried unrhyw argymhellion penodol gan unrhyw rai o Bwyllgorau’r Cyngor (ac eithrio eitemau materion cyfyngedig);
- Derbyn unrhyw adroddiad gan yr Is-Ganghellor;
- Derbyn unrhyw adroddiad gan Glerc y Cyngor;
- Derbyn adroddiadau Pwyllgorau’r Cyngor (ac eithrio materion cyfyngedig);
- Unrhyw faterion eraill a nodir yn yr Agenda;
- Adolygu’r trafodion hyd at y pwynt hwn ac ystyried a oes unrhyw wrthdaro buddiannau;
- Ystyried unrhyw eitemau materion neilltuedig; ac
- Ystyried unrhyw eitemau materion cyfyngedig, y gwaherddir aelodau o’r Cyngor sy’n staff neu’n fyfyrwyr ohonynt.

(ix) Gosodir hysbysiad o gynnig a gyflwynwyd i'r Clerc yn ysgrifenedig o leiaf 14 (bedwar ar ddeg) o ddiwrnodau cyn dyddiad y cyfarfod o'r Cyngor ac a lofnodwyd gan 2 (ddau) aelod o'r Cyngor (y cynigydd a'r eilydd yn ôl eu trefn) ar yr Agenda briodol ar gyfer y cyfarfod o'r Cyngor.

(x) Ni cheir diddymu nac amrywio unrhyw Benderfyniad gan y Cyngor nac unrhyw rai o'i Bwyllgorau mewn cyfarfod dilynol oni bai bod ystyried y diddymiad neu'r amrywiad yn eitem fusnes benodol ar agenda'r cyfarfod hwnnw.

(xi) Ni cheir cyflwyno nac ystyried unrhyw Benderfyniad Arbennig gan y Cyngor oni wneir hyn yn unol ag Erthygl XIX y Siarter.

(xii) Cedwir cofnodion o drafodion pob cyfarfod o'r Cyngor a'i Bwyllgorau gan y Clerc ac fe'u llofnodir yn yr un cyfarfod cyffredin, neu'r nesaf, o'r Cyngor, neu'r Pwyllgor, fel y bo'n berthnasol, gan y person sy'n llywyddu yno, a byddant yn dystiolaeth ddiymwad o'r materion a nodir ynddynt.

(xiii) Gall yr Archwilwyr Mewnol a/neu'r Archwilwyr Allanol wneud cais am gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg drwy ysgrifennu at y Clerc a fydd yn galw'r cyfarfod o fewn 7 (saith) diwrnod clir i dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r fath.

## d) Rheolau Trafodaeth ar gyfer Cyfarfodydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau

(i) Cyfeirir yr holl drafodaethau mewn unrhyw gyfarfod drwy'r Cadeirydd.

(ii) Bydd aelodau'n cyfeirio'u sylwadau at y cwestiwn dan drafodaeth, at bwynt o wybodaeth neu at bwynt o drefn. Os oes angen bydd y Cadeirydd yn dyfarnu ynghylch perthnasedd neu briodoldeb unrhyw gyfraniad i drafodaeth.

(iii) Ni thrafodir cynnig neu welliant oni bai ei fod wedi'i gynnig a'i eilio naill ai cyn y cyfarfod neu yn y cyfarfod.

(iv) Caiff cynigydd cynnig, gyda chydsyniad eilydd y cynnig a'r cyfarfod, newid y cynnig os yw'r newid yn un y gellid bod wedi'i wneud fel gwelliant i'r cynnig.

(v) Caiff y cynigydd dynnu cynnig neu welliant yn ôl gyda chydsyniad yr eilydd a'r cyfarfod ac wedi hynny ni chaiff unrhyw aelod siarad yn ei gylch.

(vi) Bydd gwelliant yn berthnasol i'r cynnig ac yn addasiad ohono, ac ni chaiff yr effaith o gyflwyno mater sy'n newydd yn ei hanfod nac o negyddu'r cynnig.

(vii) Ni chaiff unrhyw aelod wneud neu eilio mwy nag 1 (un) gwelliant i gynnig.

(viii) Ni cheir gwneud ail welliant na gwelliant dilynol i gynnig tan y penderfynir y gwelliant cyntaf; ond ceir rhoi hysbysiad o unrhyw nifer o welliannau, ar yr amod y rhoddir hysbysiad o'r fath cyn dechrau'r ateb i'r drafodaeth ar y gwelliant cyntaf i gynnig gwreiddiol.

(ix) Pryd bynnag y caiff gwelliant i gynnig ei dderbyn, disodlir y cynnig gan y cynnig diwygiedig a hwnnw a fydd y cynnig o sylwedd y ceir gwneud gwelliannau pellach iddo. Os na wneir gwelliannau pellach, gosodir y cwestiwn ar y cynnig o sylwedd.

(x) Pan fydd unrhyw gynnig neu welliant wedi'i osod yn briodol a'i dderbyn, y gwelliant, os caiff ei dderbyn, a fyddai'n gwrthddweud, yn diystyru neu'n ailadrodd yr un blaenorol o ran sylwedd, neu a fyddai'n atgynhyrchu cynnig neu welliant a wrthodwyd yn flaenorol.

(xi) Ar derfyn araith gan aelod arall, caiff aelod gynnig heb sylw "fod y cwestiwn bellach wedi'i osod" neu "fod y cyfarfod yn symud ymlaen i'r mater nesaf" neu "fod y Cyngor nawr yn gohirio'r cyfarfod". Os caiff hynny ei eilio a'i dderbyn, bydd y weithred yr oedd y cynnig yn ei geisio, yn digwydd.

(xii) Caiff unrhyw aelod ar unrhyw adeg yn ystod trafodaeth annerch y Cadeirydd ynghylch unrhyw bwynt o drefn sy'n codi o'r drafodaeth. Ar ôl ceisio cyngor gan Glerc y Cyngor, bydd dyfarniad y Cadeirydd yn derfynol ac ni fydd yn agored i drafodaeth bellach.

## e) Pleidleisio mewn Cyfarfodydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau

(i) Penderfynir pob cwestiwn sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o'r Cyngor ac unrhyw rai o'i Bwyllgorau gan fwyafrif o'r aelodau o'r Cyngor neu o'r aelodau o Bwyllgor penodol, fel y bo'n berthnasol, sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar y cwestiwn.

(ii) Os yw'r pleidleisiau wedi'u rhannu'n gyfartal, caiff Cadeirydd y cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(iii) Ar gyfer pob mater bydd y pleidleisio drwy godi llaw, oni phenderfyna aelodau'r Cyngor neu aelodau Pwyllgor fel arall ar gyfer mater penodol sydd dan ystyriaeth.

(iv) Fel arfer ni chofnodir enwau'r rheini sy'n pleidleisio o blaid, nac yn erbyn, unrhyw gynnig, ond caiff aelodau'r Cyngor neu unrhyw rai o'i Bwyllgorau wneud cais am gael eu pleidlais wedi'i chofnodi.

(v) Ar gais unrhyw aelod o'r Cyngor neu o unrhyw rai o'i Bwyllgorau a wnaethpwyd cyn i bleidlais gael ei bwrw, neu'n syth ar ôl i'r Cadeirydd ddatgan y canlyniad, cofnodir y nifer sy'n pleidleisio o blaid ac yn erbyn unrhyw gynnig yn y cofnodion.

## f) Gweithredu gan y Cadeirydd

(i) Bydd gan Gadeirydd y Cyngor (neu Is-Gadeirydd y Cyngor), parthed unrhyw fater sy'n dod i'r Cyngor neu unrhyw rai o'i Bwyllgorau i'w benderfynu, yr awdurdod i ystyried unrhyw fater sydd yn ei farn/ei barn:

- yn gofyn am sylw ar unwaith; ac
- nad yw'n cyfiawnhau cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor nac unrhyw rai o'i Bwyllgorau a fyddai'n ystyried y mater fel arfer; neu
- sy'n fater y fath frys fel bod galw cyfarfod yn anymarferol.

(ii) Cyn arfer yr awdurdod hwn, dylai Cadeirydd y Cyngor ymgynghori ag Is-Gadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor perthnasol a'r Is-Ganghellor.

(iii) Rhoddir adroddiad ynghylch unrhyw weithredu gan Gadeirydd y Cyngor (neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, gan Is-Gadeirydd y Cyngor) i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

**g) Presenoldeb Swyddogion mewn Cyfarfodydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau**

(i) Penderfynir aelodaeth o'r holl bwyllgorau gan y Cyngor ond bydd y swyddogion canlynol â hawl i fod yn bresennol ymhob cyfarfod o'r Cyngor:

- Is-Ganghellor
- Dirprwy Is-Gangellorion
- Clerc y Cyngor.

(ii) Bydd disgresiwn gan y Cyngor i wahodd Deoniaid yr Athrofeydd a swyddogion eraill i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

(iii) Os yw eitem ynghylch ei swydd ei hun dan ystyriaeth, bydd y swyddog dan sylw yn gadael y cyfarfod.

(iv) Os bydd y Clerc yn absennol o unrhyw gyfarfod o'r Cyngor neu ei Bwyllgorau, bydd Cadeirydd y Cyngor neu Gadeirydd y Pwyllgor perthnasol yn sicrhau y bydd swyddog priodol yn ymgymryd â dyletswyddau'r Clerc.

**h) Aelodau Staff ac Aelod-fyfyrwyr yn Gadael Cyfarfodydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau**

(i) Bydd aelodau staff ac aelod-fyfyrwyr y Cyngor yn gadael cyfarfodydd lle ystyrir unrhyw fater cyfyngedig.

(ii) Bydd yr Is-Ganghellor yn gadael unrhyw gyfarfod neu ran ohono lle bydd ei swydd dan drafodaeth.

## 9. Y Cod Ymarfer a'r Datganiad o Fuddiannau'r Aelodau

(i) Adeg eu penodi gofynnir i aelodau'r Cyngor lofnodi Cod Ymarfer a gymeradwywyd gan y Cyngor a chadarnhau eu bod yn parhau i dderbyn ei delerau'n flynyddol. Mae'r Cod yn nodi, ymhlith pethau eraill, weithdrefnau sy'n ymwneud a'r datganiad o fuddiannau'r aelodau.

(ii) Os bydd gan unrhyw aelod o'r Cyngor neu o unrhyw rai o'i Bwyllgorau unrhyw fuddiant ariannol, teuluol neu fuddiant personol arall, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn unrhyw gontract, contract arfaethedig neu fater arall a'i fod yn bresennol yn y cyfarfod o'r Cyngor neu unrhyw rai o'i Bwyllgorau lle mae'r contract, y contract arfaethedig neu'r mater arall dan ystyriaeth, bydd yr aelod yn datgelu'r ffaith yn y cyfarfod a chyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddechrau ac, oni chytunir yn wahanol drwy benderfyniad gan y cyfarfod, bydd yn gadael y cyfarfod cyn i'r eitem honno gael ei hystyried, ni fydd yn cymryd rhan yn yr ystyriaeth neu drafodaeth am y contract neu'r mater arall nac yn pleidleisio ar unrhyw gwestiwn yn gysylltiedig ag ef.

(iii) Nid ymdrinnir ag aelodau o'r Cyngor neu o'r Pwyllgorau Sefydlog fel pe bai ganddynt fuddiant ariannol mewn unrhyw fater yn unig am eu bod hwythau (neu berthynas

agos, h.y. rhiant, brawd neu chwaer neu blentyn) yn aelod o staff neu'n fyfyriwr yn y Sefydliad. Nodir yr eithriad i hyn yn Statud XI lle rhoddir budd i aelod o'r Cyngor.

(iv) Bydd yn ofynnol i bob aelod o'r Cyngor lenwi Ffurflen Datganiad o Fuddiannau, a gofnodir ar y gofrestr ganolog o fuddiannau bob blwyddyn.

(v) Bydd Clerc y Cyngor yn gwirio'n rheolaidd a oes gwrthdaro buddiannau ar gyfer unrhyw aelod o'r Cyngor a bydd yn rhoi adroddiad ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Cyngor yn ôl yr angen.

(vi) Cyhoeddir y Gofrestr o Fuddiannau a bydd ar gael i'w harchwilio gan y Prif Reoleiddiwr.

## 10. Cadw a Defnyddio'r Sêl Gyffredin

(i) Yn unol ag Erthygl XI y Siarter, y Cyngor fydd yn cadw Sêl Gyffredin y Brifysgol a'r Cyngor yn unig a gaiff ei defnyddio.

(ii) Bydd Clerc y Cyngor yn gyfrifol i'r Cyngor am ddiogelwch y Sêl Gyffredin.

(iii) Defnyddir y Sêl Gyffredin ond i selio dogfennau y mae angen y Sêl arnynt yn ôl y gyfraith neu drwy arfer a defnydd cyffredin. O fewn y telerau hyn, awdurdodir y defnydd canlynol o'r Sêl Gyffredin:

a) Tystysgrifau Graddau, Diplomâu ac Eraill;

b) Contractau Cyfreithiol; a

c) Thrawsgludiadau.

(iv) Caiff y Clerc awdurdodi gosod y Sêl Gyffredin ar y dogfennau hyn. Fel arall, gosodir y Sêl ond yn unol â phenderfyniad gan y Cyngor neu gan y Senedd neu drwy awdurdod Cadeirydd y Cyngor.

(v) Llofnodir pob offeryn y gosodir y Sêl Gyffredin arno gan y canlynol yn unig:

- Yr Is-Ganghellor; neu
- Ddirprwy Is-Ganghellor sy'n gweithredu ar ran yr Is-Ganghellor

gydag 1 (un) llofnod arall, ar yr un pryd, gan:

- Gadeirydd y Cyngor (neu Is-Gadeirydd y Cyngor sy'n gweithredu ar ran y Cadeirydd);
- Dirprwy Is-Ganghellor;
- Pro Is-Ganghellor; neu
- Glerc y Cyngor.

(vi) Bydd y Clerc yn cadw Cofrestr Selio, ac ynddi cofnodir dyddiad pob achlysur pryd gosodir Sêl Gyffredin y Brifysgol, natur yr offeryn ac enwau'r aelodau o'r Cyngor neu'r Swyddogion Prifysgol eraill sy'n llofnodi'r offeryn.

(vii) Y Sêl Gyffredin fydd honno a gymeradwyir gan Gyngor y Brifysgol.

(viii) Fel arfer, bydd dogfen yn cael ei selio a'i chymeradwyo cyn gynted ag sy'n ofynnol gan yr amgylchiadau, ond mewn amgylchiadau eithriadol, sydd i'w pennu gan y Clerc, ceir cyfiawnhau awdurdodi'r selio mewn cyfarfod o'r Cyngor.

## 11. Y Senedd: Cyfansoddiad a Phwerau

(i) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, mae'r Senedd yn gyfrifol am gynghori'r Is-Ganghellor, fel Prif Weithredwr y Brifysgol, ynghylch yr holl faterion academaidd sy'n berthnasol i waith a chenhadaeth y Brifysgol. Cadeirir y Senedd gan yr Is-Ganghellor, neu ddirprwy enwebedig yr Is-Ganghellor, mae'n cwrdd o leiaf 3 (dair) gwaith bob blwyddyn academaidd ac yn adrodd yn ôl i Gyngor y Brifysgol.

### a) Pwerau'r Senedd

(i) Y Senedd yw'r prif gorff yn y Brifysgol ar gyfer gwneud penderfyniadau academaidd. Fel y cyfryw, mae'n gyfrifol am sicrhau enw da'r Brifysgol ac am gynnal a chyfoethogi safon y ddarpariaeth a wneir yn y Brifysgol ac mewn cydweithrediad â sefydliadau partner, yn y DU a thramor. Mae'n gyfrifol am gynghori'r Is-Ganghellor ynghylch pob mater academaidd sy'n gysylltiedig â gwaith a chenhadaeth y Brifysgol.

(ii) Nodir y cylch gorchwyl yn flynyddol yn Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol.

## 12. Pwyllgorau Sefydlog y Cyngor

(i) Bydd y Cyngor yn sefydlu'r Pwyllgorau Sefydlog canlynol:

a) Pwyllgor Academaidd;

b) Pwyllgor Archwilio a Risg;

c) Pwyllgor Ystadau;

d) Pwyllgor Craffu'r Grŵp;

e) Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu;

f) Pwyllgor Taliadau; a'r

g) Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

(ii) O bryd i'w gilydd caiff y Cyngor sefydlu Pwyllgorau Sefydlog neu Bwyllgorau ad hoc eraill, neu Is-bwyllgorau i'w Bwyllgorau Sefydlog, fel y tybia sy'n briodol.

(iii) Bydd y Cyngor yn cymeradwyo cylch gorchwyl cychwynnol pob Pwyllgor, a ystyrir gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf, neu mewn unrhyw gyfarfod dilynol lle'r ystyrir bod diwygiad yn fuddiol. Ystyrir pob diwygiad yng nghylchoedd gorchwyl Pwyllgorau gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu cyn iddo argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo.

(iv) Bydd y Pwyllgorau'n ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch polisïau sy'n berthnasol i'w cylch gwaith penodol. Bydd Pwyllgorau'n gyfrifol am oruchwylio'r polisïau hyn ac am gefnogi penderfyniadau'n gysylltiedig â gweithredu'r polisïau hyn.

(v) Gall unrhyw Bwyllgor o'r Cyngor gael aelodau cyfetholedig nad ydynt yn aelodau o Gyngor y Brifysgol.

(vi) Fel arfer bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys yr aelodau o'r Cyngor nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldeb gweithredol am reoli'r Brifysgol. Ni chaiff aelod staff neu aelod-fyfyriwr o'r Cyngor fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

(vii) Ni chaniateir aelodaeth gyffredin o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, ond mewn amgylchiadau eithriadol, a gadarnheir ond yn dilyn cymeradwyaeth Cadeirydd y Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Is-Ganghellor a Chlerc y Cyngor.

(viii) Penodir aelodau pob Pwyllgor Sefydlog bob blwyddyn gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a daw penodiadau o'r fath i rym ar unwaith. Er mwyn parhad, y disgwyliad arferol yw y bydd aelod o'r Cyngor yn gwasanaethu am 3 (dair) blynedd ar Bwyllgor Sefydlog. Bydd aelodau cyfetholedig yn gwasanaethu fel arfer am bedair blynedd neu gyfnod byrrach fel y penderfyna'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

(ix) Pan sefydlir Pwyllgor Sefydlog yn ystod blwyddyn ariannol, gellir gwneud y penodiadau angenrheidiol i aelodaeth Pwyllgor o'r fath naill ai yn y cyfarfod o'r Cyngor lle y sefydlir y Pwyllgor Sefydlog neu yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

(x) Pan ddaw lle'n wag yn aelodaeth unrhyw Bwyllgor Sefydlog, gwneir y penodiad(au) angenrheidiol yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

(xi) Parthed Pwyllgorau ad hoc, bydd Cadeirydd Pwyllgor ad hoc penodol, mewn ymgynghoriad â Chlerc y Cyngor, yn gofyn i aelodau o'r Cyngor sydd ar gael fod yn aelodau o'r Pwyllgor ad hoc ar achlysur penodol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw aelodau o'r Cyngor na allant fod yn aelodau o'r Pwyllgor ad hoc hwnnw ar y pryd. Wrth wneud hyn, cyn belled ag y bo'n ymarferol, gwneir pob ymgais i amrywio aelodaeth Pwyllgorau ad hoc o'r fath yn gylchol.

(xii) Ceir gwahodd Cadeirydd y Cyngor, Is-Gadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor i fod yn bresennol yn unrhyw rai o Bwyllgorau Sefydlog y Cyngor nad ydynt yn aelodau ohonynt. At hynny, bydd pob un â hawl i siarad yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Sefydlog o'r fath, ond nid i bleidleisio.

(xiii) Eglurir cylch gorchwyl, aelodaeth, cworwm, amlder cyfarfodydd, presenoldeb swyddogion a gofynion adrodd pob Pwyllgor Sefydlog mewn atodiad i'r Ordinhadau hyn. Mae'n bosibl y diwygir yr atodiad o bryd i'w gilydd gyda chymeradwyaeth y Cyngor.

## 13. Gweithdrefnau ar gyfer y Cyngor, y Senedd a'u Pwyllgorau Sefydlog

### a) Amserlennu Pwyllgorau

(i) Cyhoeddir dyddiadau cyfarfodydd o'r Cyngor a'r Senedd am y flwyddyn i ddod cyn cychwyn y flwyddyn academaidd ar wefan y Brifysgol.

(ii) Ymhob achos, cyfrifoldeb y Clerc/Ysgrifennydd pob pwyllgor fydd hysbysu aelodau am ddyddiadau, amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd.

(iii) Anfonir hysbysiad o ddyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod a'r agenda a'r papurau ar gyfer pob cyfarfod o bwyllgor gan y Clerc/Ysgrifennydd y pwyllgor at bob aelod nid llai na 7 (saith) diwrnod cyn pob cyfarfod.

(iv) Ac eithrio pan nodir yn wahanol, caiff Cadeirydd pwyllgor, neu'r Clerc/Ysgrifennydd, alw cyfarfod arbennig o'r pwyllgor hwnnw ar ôl derbyn cais ysgrifenedig a lofnodwyd gan nid llai na thraean o'r aelodau o'r pwyllgor. Cynhelir y cyfarfod o fewn lleiafswm o 10 (ddeg) diwrnod ac uchafswm o 21 (un ar hugain) o ddiwrnodau o'r dyddiad y mae'r Clerc/Ysgrifennydd yn derbyn y cais. Bydd y Clerc/Ysgrifennydd yn hysbysu'r holl aelodau am ddyddiad, amser a lleoliad unrhyw gyfarfod arbennig. Ni thrafodir unrhyw fater mewn cyfarfod arbennig o unrhyw bwyllgor ac eithrio'r mater y'i galwyd ar ei gyfer.

(v) Dosberthir agendâu a phapurau ar gyfer unrhyw gyfarfod sy'n ymwneud â materion cyfyngedig i'r aelodau hynny o'r cyfarfod sydd â hawl i'w derbyn yn unig. Cofnodir materion o'r fath ar wahân mewn cofnod cyfyngedig.

## b) Presenoldeb mewn Cyfarfodydd

(i) Aelodau a benodwyd yn briodol yn unig sydd â hawl i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd. Fel arfer ni chaniateir dirprwyon. Mewn amgylchiadau eithriadol a chyda chytundeb blaenorol Cadeirydd y Pwyllgor, ceir caniatáu i ddirprwy fod yn bresennol mewn cyfarfod ond ni chaiff bleidleisio a chaiff gyfrannu at drafodaethau pwyllgor pan wahoddir iddo/iddi wneud gan y Cadeirydd yn unig.

(ii) Caiff cylch gorchwyl pwyllgor ddarparu ar gyfer presenoldeb Swyddogion y Brifysgol mewn cyfarfodydd. Caiff y Cadeirydd hefyd ganiatáu i swyddogion eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd unigol pan fo angen iddynt ddarparu cyngor neu gyfarwyddyd ar gyfer y Pwyllgor. Ni chaniateir i Swyddogion sy'n bresennol bleidleisio a chânt gyfrannu at drafodaethau pwyllgor ar wahoddiad y Cadeirydd yn unig.

(iii) Bydd unrhyw aelod sy'n absennol o gyfarfodydd pwyllgor am 12 (ddeuddeg) mis calendr yn olynol yn peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw oni phenderfyna'r Pwyllgor yn wahanol.

## c) Trefn a Modd Cynnal Trafodaeth

(i) Caiff unrhyw gynnig neu argymhelliad ffurfiol sy'n ymddangos ar yr agenda neu mewn papur a gyflwynir i'r cyfarfod ei osod i'r cyfarfod i'w benderfynu.

(ii) Ni chaiff unrhyw gynnig a gynigir yn ystod cyfarfod ei osod i'r cyfarfod i'w benderfynu heb gymeradwyaeth y Cadeirydd.

## d) Cofnodion

(i) Cedwir cofnodion o bob cyfarfod gan y Clerc/Ysgrifennydd, a fydd yn gyfrifol am gynnal meistr-ffeil o'r holl gofnodion a phapurau a'u harchifo wedyn.

(ii) Bydd y Clerc/Ysgrifennydd yn dosbarthu'r cofnodion heb eu cadarnhau i bob aelod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl pob cyfarfod.

(iii) Ar ôl eu cadarnhau, llofnodir cofnodion pob cyfarfod gan y Cadeirydd yn y cyfarfod dilynol.

## 14. Penodi Clerc y Cyngor

(i) Penodir Clerc y Cyngor i'r swydd honno gan y Cyngor ei hun.

(ii) Ar wahân i unrhyw gyfrifoldebau eraill a all fod gan y sawl a benodir, mewn perthynas â chyfrifoldebau fel Clerc, mae'r Clerc yn atebol i'r Cyngor yn unig, yn adrodd yn uniongyrchol i Gadeirydd y Cyngor mewn perthynas â busnes y Cyngor fel y'i diffinnir isod, ac fe'i gwerthusir yn unol â phroses a sefydlir gan y Cyngor.

(iii) Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gan y Clerc lefel briodol o hynafedd ac annibyniaeth er mwyn gallu cyflawni'r rôl yn effeithiol.

(iv) Gall y Clerc gyfuno swyddogaeth y Clerc â rôl Ysgrifennydd y Brifysgol a bydd yn arfer gofal wrth wahanu'r ddwy swyddogaeth hon. Bydd y Cyngor yn adolygu, o leiaf bob tair blynedd, a oes risg y bydd annibyniaeth swydd y Clerc yn cael ei beryglu.

(v) Os bydd y Clerc yn canfod unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng y swyddogaethau gwahanol, bydd y Clerc yn hysbysu'r Cyngor o hynny ar unwaith. Os bydd y Cyngor o'r farn ei fod wedi nodi gwrthdaro buddiannau o'r natur hwn, caiff y Clerc a'r Is-Ganghellor gyfle i ymateb i unrhyw gwestiwn o'r fath.

(vi) Gellir symud y Clerc o'r rôl hon drwy benderfyniad gan y Cyngor, ac eithrio os yw'r Clerc hefyd yn weithiwr cyflogedig i'r Brifysgol pryd ceir ei symud ar sail achos da.

## 15. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Clerc y Cyngor

(i) Mae'n ofynnol i'r Clerc roi arweiniad awdurdodol i'r Cyngor ynghylch ei gyfrifoldebau o dan y siarter, statudau, erthyglau, ordinhadau a rheoliadau y mae'n ddarostyngedig iddynt, gan gynnwys deddfwriaeth a gofynion y Prif Reoleiddiwr a rheoleiddwyr perthnasol eraill, ar sut y dylid cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

(ii) Bydd y Clerc yn sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau newydd neu ddiwygiedig ar gyfer y Cyngor yn cael eu dwyn i sylw'r Cyngor.

(iii) Mae gan y Clerc gyfrifoldeb i rybuddio'r Cyngor os byddai unrhyw weithred arfaethedig yn mynd y tu hwnt i bwerau'r Cyngor neu'n groes i ddeddfwriaeth neu i ofynion y Prif Reoleiddiwr neu reoleiddwyr eraill.

(iv) Bydd y Clerc yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor mewn perthynas â hysbysu'n ffurfiol y Comisiwn Elusennau, a rheoleiddwyr eraill fel y bo'n briodol, am ddigwyddiadau difrifol.

(v) Bydd y Clerc yn rheoli Datgeliadau er Lles y Cyhoedd ar ran y Cyngor.

(vi) Y Clerc yn unig sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor cyfreithiol i'r Cyngor, neu ei gael, a darperir cyllideb iddo at y diben hwnnw, ac am gynghori'r Cyngor ar yr holl faterion o drefn.

(vii) Bydd y Clerc (gan weithio gyda'r Uwch Gyfarwyddiaeth) yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth a ddarperir i aelodau o'r Cyngor yn gryno a bod eu cynnwys yn briodol.

(viii) Bydd y Clerc hefyd yn gweithredu fel Clerc i Bwyllgorau'r Cyngor neu'n gyfrifol am sicrhau y darperir cymorth clerigol digonol i Bwyllgorau'r Cyngor a darperir cyllideb iddo at y diben hwnnw.

(ix) Bydd y Clerc yn cynnal Cofrestr Buddiannau aelodau o'r Cyngor ac unrhyw unigolion eraill y mae angen datganiad o ddiddordebau ganddynt ar y Cyngor. Tra bod aelodau ac eraill yn gyfrifol am ddatgan eu gwrthdaro a/neu wrthdaro posibl, y Clerc fydd yn gyfrifol ac yn atebol am amlygu materion o ran annibyniaeth neu wrthdaro i Gadeirydd y Cyngor.

(x) Bydd y Clerc yn gyfrifol am gadw Sêl y Brifysgol ac am ei defnydd priodol.

(xi) Bydd y Clerc yn gyfrifol am drefnu rhaglen gynefino i aelodau newydd o'r Cyngor a bydd yn tynnu sylw aelodau o'r Cyngor at weithgareddau hyfforddi a drefnir yn fewnol a gan ddarparwyr allanol priodol.

(xii) Bydd y Clerc yn trefnu ar gyfer ad-dalu aelodau o'r Cyngor am y treuliau a ddaw i'w rhan wrth gyflawni busnes y Cyngor a darperir cyllideb iddo at y diben hwnnw.

(xiii) Bydd gofyn i'r Clerc greu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda Chadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor. Bydd y Clerc yn ymgynghori ac yn hysbysu'r Is-Ganghellor am unrhyw fater priodol yn ymwneud â busnes y Cyngor.

(xiv) Bydd yn ofynnol i'r Clerc gynghori'r Cadeirydd mewn perthynas ag unrhyw faterion lle gall gwrthdaro, posib neu real, ddigwydd rhwng y Cyngor a'r Is-Ganghellor.

(xv) Bydd yn ofynnol i'r Clerc greu perthnasoedd gwaith effeithiol ag uwch reolwyr eraill yn y Brifysgol i hwyluso cynnal busnes y Cyngor yn effeithiol. Ar wahân i rôl ehangach y Clerc yn y Brifysgol, disgwylir y bydd cyfranogiad y Clerc mewn trafodaethau strategol yn y Brifysgol yn ddigonol i alluogi'r Clerc i ddarparu arweiniad i'r Cyngor yn ôl y gofyn.

(xvi) Bydd y Clerc yn datgan diddordebau personol yn llawn ac yn amserol yn y Gofrestr.

(xvii) Bydd y Cyngor yn diogelu gallu'r Clerc i gyflawni ei rôl.

(xviii) Bydd y Clerc yn gweithredu yn unol â safonau ymddygiad cyffredin mewn bywyd cyhoeddus, gan gofleidio anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth, ac yn cynnal cyfrinachedd fel y bo'n briodol.

(xix) Bydd y Clerc yn cymryd rhan mewn gweithdrefnau a sefydlir gan y Cyngor ar gyfer gwerthuso/adolygu perfformiad yn rheolaidd. Bydd y gweithdrefnau hyn ar wahân i weithdrefnau ar gyfer gwerthuso/adolygu unrhyw gyfrifoldebau eraill a allai fod gan y Clerc a dylid eu hadrodd i bwyllgor priodol y Cyngor.

(xx) Bydd y Clerc yn ymwneud yn rhagweithiol â gweithgareddau datblygiad proffesiynol priodol ac mewn rhwydweithiau sector sy'n berthnasol i'r rôl ac fe'i penodir gan y Brifysgol yn aelod o'r Gymdeithas Penaethiaid Gweinyddu Prifysgolion.

**Ordinhad III: Academaidd**

**1. Yr Athrofeydd ac Unedau Academaidd**

(i) Dan ddarpariaethau Erthyglau IX a XI y Siarter a Statudau VI a XII mae awdurdod gan yr Is-Ganghellor i benderfynu strwythur sefydliadol cyffredinol y Brifysgol.

(ii) Bydd y strwythur sefydliadol yn cynnwys y canlynol:

- Athrofeydd, a fydd yn cynnwys Prif Unedau Academaidd y Brifysgol;
- Athrofeydd Ymchwil a chanolfannau arbenigol, a all weithredu o fewn neu ar draws Athrofeydd; a chydweithio'n allanol. Bydd yr athrofeydd hyn yn cynnwys y rhai a oedd yn hanesyddol yn rhan o Brifysgol Cymru, megis y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd; a
- Swyddogaethau anacademaidd, a fydd yn gweithredu ar draws campysau'r Brifysgol.

(iii) Goruchwylir gwaith rheoli cyffredinol y Brifysgol gan yr Uwch Gyfarwyddiaeth.

(iv) Bydd pob Athrofa'n cynnwys y canlynol:

- Yr Is-Ganghellor;
- Y Dirprwy Is-Ganghellor(ion);
- Deon yr Athrofa;
- Penaethiaid y Prif Unedau Academaidd;
- Aelodau eraill llawn amser a rhan amser o'r staff academaidd sy'n ymwneud ag addysgu a/neu asesu myfyrwyr israddedig neu fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir o fewn yr Athrofa; a
- Myfyrwyr cofrestredig llawn amser neu ran amser yr Athrofa.

(v) Rheolir pob Athrofa drwy Fwrdd Athrofa, y bydd Deon yr Athrofa honno'n ei gadeirio. Bydd y Bwrdd Athrofa'n cynnwys Penaethiaid y Prif Unedau Academaidd a chynrychiolwyr myfyrwyr a benodwyd drwy'r Undeb Myfyrwyr, gyda'r nifer yn cael ei gytuno'n flynyddol gan yr Athrofa a'r Undeb Myfyrwyr. Bydd yr Undeb Myfyrwyr yn sicrhau y bydd y cynrychiolwyr myfyrwyr yn rhesymol gynrychiadol o'r pynciau a addysgir o fewn yr Athrofa ac o'r blynyddoedd astudio amrywiol. Bydd pobl eraill y caiff y Senedd eu pennu o bryd i'w gilydd hefyd yn bresennol yn y Bwrdd Athrofa.

(vi) Bydd Deoniaid yr Athrofeydd yn monitro ac yn sicrhau cynnal ansawdd a safonau academaidd ac yn cyflwyno barn eu Hathrofa ynghylch materion ansawdd a safonau academaidd i'r Senedd ac i gyrff eraill y Brifysgol.

(vii) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, bydd gan bob Athrofa y pwerau a'r swyddogaethau a bennir gan y Senedd ac a eglurir yn flynyddol yn Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol.

(viii) Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, awdurdodir Athrofeydd, Athrofeydd Ymchwil a chanolfannau arbenigol i sefydlu grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau eraill i'w cynorthwyo yn eu gwaith.

**a) Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Penaethiaid yr Athrofeydd a'r Ysgolion**

*(i) Deoniaid yr Athrofeydd*

- Penodir Deoniaid yr Athrofeydd yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol a byddant yn benodiadau parhaol.
- Bydd Deoniaid yr Athrofeydd yn cadeirio Cyfarfodydd y Byrddau Athrofa, a gynhelir bob tymor.
- Bydd Deoniaid yr Athrofeydd yn cyflawni'r dyletswyddau hynny ac â'r pwerau hynny a ddirprwyir iddynt gan yr Is-Ganghellor.
- Ceir penodi Deoniaid Cynorthwyol i roi cymorth wrth gyflawni dyletswyddau Deoniaid yr Athrofeydd. Os penodir Deoniaid Cynorthwyol byddant yn aelodau o'r Bwrdd Athrofa.

## 2. Graddau a Dyfarniadau Eraill a Roddir gan y Brifysgol

(i) Mae Erthygl IV Siarter y Brifysgol yn cyflwyno'r pŵer i roi graddau a dyfarniadau eraill y Brifysgol. Disgrifir prosesau asesu a dyfarnu yn Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol, sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol.

## 3. Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd y Brifysgol

(i) Gall y Cyngor gyflwyno unrhyw radd gan y Brifysgol i unrhyw unigolyn honoris causa (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'graddau er anrhydedd') a gall ethol unigolion o fri ac unigolion sydd, ym marn y Cyngor, wedi rhoi gwasanaethau sylweddol i'r Brifysgol neu i'r gymuned, yn Gymrodyr. Hefyd caiff y Cyngor ddyfarnu Medal Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant i unigolion neu sefydliadau sydd, ym marn y Cyngor, wedi rhoi gwasanaeth neilltuol i'r Brifysgol.

(ii) Bwriad ethol Cymrodyr y Brifysgol yw cydnabod unigolion o fri arbennig yn eu meysydd eu hunain sydd wedi rhoi gwasanaeth neilltuol i'r Brifysgol. Gellir dyfarnu Cymrodoriaeth Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant:

a) I aelodau neu gyn-aelodau o'r Cyngor, neu i gyn-aelodau o Gyngor unrhyw sefydliad rhagflaenol, neu i aelodau neu gyn-aelodau Cyngor Coleg cyfansoddol, neu i gyn-aelodau staff neu gyn-fyfyrwyr y Brifysgol a'i sefydliadau rhagflaenol, sydd wedi cyflawni bri mewn meysydd priodol neu wedi rhoi gwasanaethau neilltuol i'r Brifysgol neu i'r gymuned;

b) I unigolion eraill nad ydynt yn aelodau o'r Brifysgol sydd o fri arbennig mewn meysydd priodol neu sydd wedi rhoi gwasanaethau neilltuol mewn meysydd o ddiddordeb i'r Brifysgol neu ei chymuned.

(iii) Gellir cyflwyno gradd er anrhydedd i unigolion hynod deilwng, sy'n rhagorol yn eu maes. Fel arfer bydd unigolion o'r fath wedi gwneud cyfraniad academaidd sylweddol a pharhaus mewn maes sy'n berthnasol i'r Brifysgol neu wedi cael cydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol neu ryngwladol am eu campau rhagorol, neu wedi rhoi gwasanaethau neilltuol fel aelodau o staff neu fel aelodau o Gyngor y Brifysgol.

(iv) Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni chyflwynir gradd er anrhydedd in absentia.

(v) Ni chyflwynir gradd er anrhydedd wedi marwolaeth. Fodd bynnag, os yw'r Cyngor wedi penderfynu'n ffurfiol gyflwyno gradd er anrhydedd i unigolyn, ac mae'r unigolyn hwnnw'n marw cyn cynnal y digwyddiad cyflwyno, tybir bod y radd er anrhydedd wedi'i chyflwyno, ac mai'r diwrnod cyn dyddiad y farwolaeth yw dyddiad y cyflwyno.

(vi) Cyfeirir at radd er anrhydedd a gyflwynir gan y Brifysgol fel a ganlyn: Teitl y radd (PCYDDS) honoris causa, e.e. DD (PCYDDS) honoris causa.

(vii) Bydd y Cyngor yn pennu ffurf y diploma ar gyfer y rheini y cyflwynwyd gradd er anrhydedd iddynt a bydd yn pennu'r gweithdrefnau ar gyfer gwahodd ac ystyried enwebiadau a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r graddau. Caiff hefyd ddatblygu meini prawf cyflwyno graddau er anrhydedd yn fwy cyflawn, os ystyria hynny'n addas.

(viii) Gellir dyfarnu Medal Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant i unigolion neu sefydliadau, boent yn aelodau o'r Brifysgol neu beidio, y tybir eu bod yn gymwys oherwydd eu bod wedi rhoi gwasanaeth neilltuol neu ragorol i'r Brifysgol neu wedi gweithredu dros gyfnod o amser i gyfoethogi'i henw da, ei chenhadaeth a/neu ei hamcanion.

(ix) Gwneir yr holl Raddau er Anrhydedd, Cymrodoriaethau er Anrhydedd a Dyfarniadau er Anrhydedd eraill yn sgil argymhelliad gan y Cyngor, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

(x) Cyflwynir Graddau er Anrhydedd, Cymrodoriaethau er Anrhydedd a Dyfarniadau er Anrhydedd yng Nghynulliadau Graddio a Seremonïau Gwobrwyo eraill y Brifysgol a, gyda chymeradwyaeth yr Is-Ganghellor, gellir eu cyflwyno ar achlysuron eraill hefyd.

(xi) Mewn amgylchiadau eithriadol, ac ar sail achos da (ac yn amodol ar reolau cyfiawnder naturiol a hawl apelio i'r Is-Ganghellor), gellir diddymu Graddau er Anrhydedd, Cymrodoriaethau er Anrhydedd a Dyfarniadau er Anrhydedd eraill yn sgil argymhelliad ar y cyd gan y Cyngor a'r Senedd.

(xii) At ddibenion yr Ordinhad hon ystyr "achos da" fydd ymddygiad o natur anghyfreithlon, anfoesol, cywilyddus neu waradwyddus ac ymddygiad y pennir gan y Cyngor a'r Senedd ei fod yn anghydnaws â meddu ar Ddyfarniad er Anrhydedd gan y Brifysgol ac fel y'i diffinnir yn Statud II.

## 4. Cynulliadau

(i) Cynhelir Cynulliadau o'r Brifysgol o leiaf bob blwyddyn er mwyn cyflwyno graddau, ar amser ac mewn lle a bennir gan y Cyngor. Yr Is-Ganghellor fydd yn llywyddu, neu yn absenoldeb yr Is-Ganghellor, Dirprwy Is-Ganghellor neu Brofost Campws.

(ii) Cyflwynir y rheini y dyfernir Graddau er Anrhydedd iddynt, i gael eu derbyn i'r Brifysgol gan y Noddwr neu'r Llywydd neu gan unigolyn a benodir gan yr Is-Ganghellor.

**Ordinhad IV: Cyllid**

**1. Materion Ariannol**

(i) Dan y Telerau ac Amodau Cyllido gyda'r Prif Reoleiddiwr, mae'n ofynnol i'r Brifysgol feddu ar system gadarn o reolaeth ariannol fewnol.

(ii) Yn unol â Statudau III (Archwilio), VI 2(vi - xi) (Pwerau), a XI (Buddion), mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau y ceir darpariaeth ddigonol ar gyfer rheolaeth briodol ar fusnes ariannol y Brifysgol. Mae'r Ordinhad yn berthnasol i ddulliau cynnal holl fusnes ariannol Grŵp Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, yn cynnwys Cynllun Elusennol Coleg y Drindod, yr Undeb Myfyrwyr a'r holl Is-gwmnïau. Mae'n berthnasol beth bynnag bo ffynhonnell y cyllid.

(iii) Noda'r Ordinhad hon gyfrifoldebau allweddol ar gyfer materion ariannol o fewn Grŵp Prifysgol Y Drindod Dewi Sant. Rhaid i unrhyw un sy'n delio â materion ariannol ufuddhau iddi.

(iv) Mae'n bosibl y bydd torri'r Ordinhad hon yn arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn yr unigolyn dan sylw dan delerau ei gontract cyflogaeth gyda'r Brifysgol neu Is-gwmni neu, yn achos myfyrwyr, dan Weithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol ar gyfer Myfyrwyr.

(v) Dyletswydd yr Is-Ganghellor a Chlerc y Cyngor yw sicrhau bod yr Ordinhad hon yn cael ei hadolygu o dro i dro a'i haddasu pan fo angen i adlewyrchu newidiadau sefydliadol neu newidiadau eraill o fewn y Brifysgol.

(vi) Dan yr Ordinhad hon mae awdurdod gan Uwch Gyfarwyddiaeth y Brifysgol i lunio Rheoliadau Ariannol er mwyn sicrhau rheoli effeithlon a dulliau da o gynnal holl gyllid y Brifysgol ac er mwyn cydymffurfio â gofynion y Prif Reoleiddiwr. Ystyrir y system reolaeth fewnol a gynhwysir yn Rheoliadau Ariannol y Brifysgol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn dilyn argymhelliad priodol gan yr Is-Ganghellor, i'w chymeradwyo gan y Cyngor.

(vii) Disgwylir i Fwrdd Cynllun Elusennol Coleg y Drindod ddilyn Rheoliadau Ariannol y Brifysgol, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen yn unol â Deddf Elusennau 2011.

(viii) Mae'n ofynnol i Lywydd Undeb y Myfyrwyr a Chyfarwyddwyr pob Is-gwmni fabwysiadu Rheoliadau Ariannol y Brifysgol, yn amodol ar unrhyw ofynion penodol sy'n addas at anghenion eu rhannau o Grŵp Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, a dylai diwygiadau o'r fath gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn dilyn argymhelliad priodol gan yr Is-Ganghellor.

(ix) Os bydd gwrthdaro rhwng yr Ordinhad hon ac unrhyw Reoliadau isradd, yr Ordinhad hon fydd o'r pwys pennaf.

**2. Rheoli Risg**

(i) Mae'r Brifysgol yn cydnabod y risgiau sydd ynghlwm wrth ei busnes ac mae wedi ymrwymo i reoli'r risgiau hynny sy'n achosi bygythiad sylweddol i gyflawni'i nodau busnes ac iechyd ariannol. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi cyfarwyddyd manwl ar reoli risg mewn dogfen bolisi y mae'n ofynnol i'r holl Aelodau o'r Brifysgol gydymffurfio â hi.

## 3. Dirprwyo Pwerau a Chyfrifoldebau

Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol i'r holl awdurdod dirprwyedig o fewn y Brifysgol:

(i) Gellir dirprwyo awdurdod i lawr, ond ar y ddealltwriaeth y bydd dirprwywyr yn rhoi rheolaethau digonol yn eu lle i sicrhau bod y rheini y dirprwyir iddynt yn deall eu rhwymedigaethau'n llawn. Rhaid i brif elfennau'r materion a ddirprwyir gael eu cofnodi'n ysgrifenedig, er mwyn osgoi amheuaeth rhwng dirprwywyr a'r rheini y dirprwyir iddynt. Er y gellir dirprwyo'r cyfrifoldeb am gyflawni rhai dyletswyddau, ynghyd â'r awdurdod a'r adnoddau i'w cyflawni, nid yw hyn yn rhyddhau'r sawl sy'n dirprwyo oddi wrth ei gyfrifoldeb cyffredinol ac mae'r dirprwywr yn parhau i fod â chyfrifoldeb rheoli.

(ii) Pan fo Aelodau o'r Brifysgol yn dirprwyo eu pwerau i drydydd partïon, dyletswydd y dirprwywyr yw sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Ordinhad hon.

## 4. Cynllunio Ariannol

(i) Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyffredinol am gynllunio tymor hir a thymor byr a dyrannu adnoddau i bob rhan o'r Grŵp Prifysgol ac am lunio cynlluniau'n unol â gofynion y Prif Reoleiddiwr. Dirprwyir y cyfrifoldeb hwn i'r Is-Ganghellor fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu.

(ii) Mae'r Is-Ganghellor yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor ar bob agwedd o Gynllun Strategol y Brifysgol a'i oblygiadau ar gyfer lles ariannol y Brifysgol, fel y mae Cadeirydd Cynllun Elusennol Coleg y Drindod ar ran y Cynllun Elusennol a Llywydd Undeb y Myfyrwyr am yr Undeb Myfyrwyr.

## 5. Adroddiadau Ariannol, Cofnodion Cyfrifyddu a Gwybodaeth

(i) Yn unol â Thelerau ac Amodau Cyllido'r Prif Reoleiddiwr ac nid hwyrach na 6 (chwe) mis ar ôl diwedd blwyddyn ariannol y Brifysgol, bydd swyddogion y brifysgol yn llunio cyfrifon grŵp am y flwyddyn honno, a gyflwynir i'r Cyngor ar ôl iddynt gael eu hadolygu gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'u cadarnhau gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

(ii) Bydd swyddogion y Brifysgol hefyd yn darparu cyfrifon rheoli a chyfrifon masnachu ar gyfer y Cyngor a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall yn ymwneud â materion ariannol y Brifysgol ag y gofynnant amdani o bryd i'w gilydd.

(iii) Bydd swyddogion y Brifysgol yn sefydlu ac yn cofnodi polisïau cyfrifyddu ar gyfer Grŵp Prifysgol y Drindod Dewi Sant i'w cytuno gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cynhelir yr holl systemau a chofnodion cyfrifyddu o fewn Grŵp Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn unol â gofynion y Rheoliadau Ariannol. Bydd y Polisïau Cyfrifyddu'n cydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU ("UK GAAP") ac unrhyw Ddatganiad o'r Arfer a Argymhellir ("SORP") perthnasol, a diwygir y Polisïau yn ôl yr angen yn unol ag unrhyw newidiadau yn y ddau hyn.

## 6. Cyllidebau a Dyrannu Adnoddau

(i) Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y Gyllideb ar gyfer y Brifysgol yn flynyddol, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Dyletswydd yr Is-Ganghellor yw adrodd wrth y Cyngor a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad am unrhyw amrywiadau arwyddocaol ar y canlyniad disgwyliedig a ddaw i'w sylw hwythau yn ystod y flwyddyn. Nodir y camau priodol ar gyfer delio ag unrhyw amrywiad arwyddocaol yn y Rheoliadau Ariannol.

(ii) Mae'r Cyngor yn dirprwyo cyfrifoldeb am ddyrannu cyllidebau i'r Is-Ganghellor. At ddibenion yr Ordinhad hon, disgrifir rhywun y dirprwyir cyfrifoldeb cyllidebol iddo/iddi, yn "Ddeiliad Cyllideb". Ymhob achos, mae Deiliaid Cyllideb yn atebol i'w rheolwyr llinell am reolaeth ariannol ar eu cyllidebau, yn unol â chyfarwyddiadau a roddir o bryd i'w gilydd.

## 7. Ymateb i Honiadau o Dwyll, Llwgrwobrwyo ac achosion cysylltiedig o Afreoleidd-dra

(i) Mae llawer o incwm y Brifysgol yn deillio o gronfeydd cyhoeddus ac mae'n sefydliad elusennol cofrestredig, felly mae ganddi gyfrifoldeb penodol i sicrhau y defnyddir incwm ac adnoddau at y dibenion arfaethedig yn unig.

(ii) At ddibenion yr Ordinhad hon, mae "twyll" fel y'i diffinnir yn Neddf Twyll 2006 a "llwgrwobrwyo" fel y'i diffinnir yn Neddf Llwgrwobrwyo 2010. Cyfeiria "achosion cysylltiedig o Afreoleidd-dra" at y troseddau hynny a ddiffinnir yn gyfredol gan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 a Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007.

(iii) Mae twyll a llygredigaeth yn fater difrifol ac mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ymchwilio i bob achos o amheuon ynghylch twyll neu lygredigaeth. Bydd unrhyw aelod o staff, ni waeth beth fo'i swydd neu'i statws, y darganfyddir tystiolaeth prima facie o dwyll neu lygredigaeth yn ei erbyn, yn destun gweithdrefnau disgyblu a all arwain at ddiswyddo. Fel arfer bydd y Brifysgol yn cysylltu â'r heddlu a chaiff geisio iawn drwy achos sifil. Bydd yr Ordinhad hon yn berthnasol i holl aelodau'r Brifysgol.

(iv) Nodir y prosesau sydd i'w dilyn a'r camau cysylltiedig yng Ngweithdrefn Ymateb i Dwyll/Llwgrwobrwyo y Brifysgol, a gynhwysir yn Rheoliadau Ariannol y Brifysgol.

(v) Mae Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio'r Prif Reoleiddiwr yn cynnwys gofyniad bod rhaid i brifysgolion hysbysu'r Prif Reoleiddiwr am unrhyw achosion o dwyll neu afreoleidd-dra gwirioneddol, neu ymgais i'w cyflawni neu amheuaeth o hynny pan fo:

- Y symiau dan sylw'n fwy nag £20,000, neu â'r potensial i fod;
- Manylion y twyll yn anarferol, yn anghyffredin neu'n gymhleth; a/neu
- Tebygolrwydd o ddiddordeb gan y cyhoedd oherwydd natur y twyll neu'r bobl sydd dan sylw.

(vi) Adroddir am unrhyw achosion o dwyll neu afreolaidd-dra gwirioneddol, neu ymgais i'w cyflawni neu amheuaeth o hynny sy'n cyfateb i'r meini prawf yng Nghod Ymarfer ar gyfer Archwilio'r Prif Reoleiddiwr, wrth Gadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Partner Archwilio Allanol.

(vii) Rhaid cyfeirio unrhyw gais am eirda ar gyfer aelod o staff neu fyfyriwr sydd wedi'i ddisgyblu neu ei erlyn am dwyll neu afreolaidd-dra ariannol arall at yr Is-Ganghellor am gyngor.

(viii) Adolygir yr Ordinhad hon yn flynyddol ar gyfer addasrwydd i'r diben. Rhoddir gwybod am unrhyw newid a argymhellir i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i'w ystyried ac i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

## 8. Rheoli Trysorlys y Grŵp

(i) Gall y Brifysgol a'i His-gwmnïau 'gronni' neu rannu eu hadnoddau cyfalaf gweithio ariannol, ar sail fyrdymor, i gynorthwyo rheolaeth dda o drysorlys y Grŵp a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hynny rhwng aelodau'r Grŵp o ddydd i ddydd.

(ii) Cyngor y Brifysgol a Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Is-gwmni perthnasol sydd ag awdurdod i gymeradwyo'r fath gronni. Rhoddir ceisiadau ar gyfer trosglwyddo cyllid yn fyrdymor i'r cyrff perthnasol eu cymeradwyo. Er budd cynllunio ac er mwyn cyflymu prosesu, disgwylir y rhoddir hysbysiad o gais sydd ar ddod i'r corff perthnasol cyn gynted ag y'i rhagwelir, ynghyd â manylion y swm bras ac uchaf. Lle y bo'n briodol, bydd y corff perthnasol yn awdurdodi swyddogion i dynnu'r swm penodedig i lawr pan dderbynnir y cais yn ffurfiol.

(iii) Mewn achosion eithriadol, os na fydd hysbysiad o gais sydd ar ddod i drosglwyddo cyllid wedi ei roi, ac nad oes cyfarfod o'r corff perthnasol wedi'i drefnu, bydd cyfarfod eithriadol fel arfer yn cael ei alw yn unol â darpariaethau'r dogfennau statudol perthnasol.

(iv) Ni fydd unrhyw drosglwyddiad cyllid yn weithredol ar ddiwedd blwyddyn ariannol naill ai'r Brifysgol neu'r Is-gwmni.

(v) Ni chodir llog ar unrhyw drosglwyddiadau cyllid o'r fath ond caiff y trosglwyddwr ofyn i'r trosglwyddai dalu unrhyw gostau a ddaw i ran y trosglwyddwr wrth wneud y trosglwyddiad (gan gynnwys colli llog y byddai fel arall wedi'i gael). Bydd y trosglwyddai yn talu'r holl gostau o'r fath a ddaw i ran y trosglwyddwr yn rhesymol.

(vi) Gwneir ceisiadau am drosglwyddiadau cyllid o'r fath yn ysgrifenedig gan yr Is-Ganghellor neu enwebai (yn achos y Brifysgol) neu gan y Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Rheoli/Pennaeth (yn achos yr Is-gwmni) a bydd yn nodi:

i. swm y trosglwyddiad;
ii. pwrpas y trosglwyddiad;
iii. y dyddiad trosglwyddo y gofynnwyd amdano; a'r
iv. dyddiad y bwriedir ad-dalu.

(vii) Mae'r trefniadau uchod yn berthnasol i drosglwyddiadau tymor byr i reoli'r trysorlys yn unig. Bydd unrhyw drosglwyddiad arall ar ffurf benthyciad rhwng y Brifysgol a'i His-gwmnïau neu i'r gwrthwyneb yn cael ei gofnodi'n briodol mewn cytundeb benthyca ffurfiol yn amodol ar gymeradwyaeth Cyngor y Brifysgol a Bwrdd yr Is-gwmni ac yn unol â chanllawiau rheoleiddiwr perthnasol / cytundebau'r cyfleusterau banc.

**Ordinhad V: Staff**

**1. Swyddogion y Brifysgol**

**a) Is-Ganghellor**

Dynodir yr Is-Ganghellor yn Brif Weithredwr, Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Swyddog Academaidd a Gweinyddol a bydd ganddo/ganddi'r pŵer i gyflwyno dyfarniadau gradd ac anrhydeddau academaidd eraill Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant. Bydd yr Is-Ganghellor hefyd yn Brif Weithredwr Grŵp Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Mae gan yr Is-Ganghellor gyfrifoldeb dirprwyedig gan y Cyngor ar gyfer: datblygu'r holl gynlluniau strategol a gweithredol; stiwardiaeth o'r holl adnoddau, cyfalaf a refeniw ariannol, o fewn y terfynau a bennir gan Ordinhad; a threfnu a rheoli'r holl adnoddau staff. Penodir yr Is-Ganghellor gan y Cyngor.

**b) Dirprwy Is-Gangellorion**

Penodir y Dirprwy Is-Gangellorion gan y Cyngor. Maent yn gyfrifol am y meysydd canlynol o weithgareddau'r Brifysgol: materion corfforaethol, strategol ac academaidd; cyllid ac adnoddau; ac ymchwil, arloesi, sgiliau ac ymgysylltu â chymunedau.

**c) Pro Is-Gangellorion**

Penodir y Pro Is-Gangellorion gan y Cyngor.

**d) Deoniaid yr Athrofeydd**

Penodir Deoniaid yr Athrofeydd yn bennaf i sefydlu ac arwain yr Athrofeydd academaidd. Penodir y Deoniaid yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol.

**e) Profostiaid Campws**

Mae'r Profostiaid Campws i'w hystyried yn 'llysgenhadon' ar gyfer hunaniaethau diwylliannol cymuned pob campws. Byddant yn gweithio gyda'r Is-Ganghellor i ddatblygu hunaniaeth gref ar gyfer y myfyrwyr a'r colegau.

**f) Penodi'r Is-Ganghellor**

(i) Penodir yr Is-Ganghellor gan y Cyngor a bydd yn ei swydd tan iddo/iddi ymddeol neu gwblhau'r contract fel y'i pennir gan y Cyngor, neu ymddiswyddo neu ei symud o'i swydd, fel y'i disgrifir yn yr Atodiad i Statud X.

(ii) Bydd y Cyngor yn cytuno ar y broses a gweithdrefn benodi ar gyfer yr Is-Ganghellor a bydd yn sefydlu Pwyllgor Penodi.

(iii) Bydd y Pwyllgor Penodi yn cymryd y camau fel y gwêl orau i wneud y swydd wag yn hysbys drwy hysbysebu ac unrhyw ddull arall. Bydd ganddo'r pŵer i gadarnhau disgrifiad swydd ar gyfer y swydd, llunio rhestr fer o ymgeiswyr a'u cyfweld. Hefyd gall wahodd unrhyw unigolyn i fod yn ymgeisydd.

(iv) Caiff y Pwyllgor Penodi ymgynghori ag unrhyw unigolyn arall am y penodiad ac, yn ôl ei ddisgresiwn, caiff gyfethol nid mwy na 2 (dau) unigolyn i weithredu'n aseswyr allanol na fydd yn gymwys i bleidleisio.

(v) Bydd y Pwyllgor Penodi yn cynnig 1 (un) ymgeisydd i'w benodi gan y Cyngor. Darperir manylion cymwysterau'r ymgeisydd a ddewisir gan y Pwyllgor ar gyfer yr aelodau o'r Cyngor, a gaiff, yn ôl ei ddisgresiwn, wahodd yr ymgeisydd i ddod am gyfweliad pellach cyn cadarnhau'r penodiad.

(vi) Os bydd y Pwyllgor Penodi yn methu â chytuno ar 1 (un) ymgeisydd ac y cyflwyna fwy nag 1 (un) ymgeisydd o'r fath, bydd y Cyngor yn gwneud y cyfryw benodiad yn y modd a benderfyna, gan fod yn ymwybodol o ofynion cyfreithiol.

## g) Rôl yr Is-Ganghellor

Yr Is-Ganghellor yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Brifysgol.

Bydd yr Is-Ganghellor, fel Prif Swyddog Gweithredol y Brifysgol, yn atebol i'r Cyngor am weithrediad effeithlon ac effeithiol y Brifysgol. Mae prif swyddogaethau'r rôl fel a ganlyn:

(i) Bydd gan yr Is-Ganghellor y pŵer i gyflwyno graddau ar unrhyw lefel ac anrhydeddau academaidd eraill Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

(ii) Bydd yr Is-Ganghellor yn cadeirio'r Senedd.

(iii) Bydd yr Is-Ganghellor yn aelod ex-officio o gyrff statudol y Brifysgol ac o bob pwyllgor Prifysgol ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Taliadau. Caiff yr Is-Ganghellor fynd i'r Pwyllgor Taliadau drwy wahoddiad ond bydd yn gadael pan drafodir unrhyw fater yn ymwneud â'i delerau / thelerau ac amodau ei hun.

(iv) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheoliadau, gall yr Is-Ganghellor wrthod derbyn, neu gall ohirio astudiaethau neu gall dynnu unrhyw fyfyriwr yn ôl o'i astudiaethau a gall wahardd unrhyw fyfyriwr o unrhyw ran o'r Brifysgol.

(v) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Statudau, yr Ordinhadau a'r Rheoliadau, gall yr Is-Ganghellor atal unrhyw aelod o staff dros dro ar gyflog llawn, ei ddiswyddo neu'i symud o'i swydd.

Gall yr Is-Ganghellor ddirprwyo unrhyw rai o'r swyddogaethau a restrir uchod yng nghymalau (ii), (iii) a (iv) i Ddirprwy Is-Ganghellor neu Pro Is-Ganghellor.

## h) Penodi'r Dirprwy Is-Gangellorion

(i) Penodir y Dirprwy Is-Gangellorion gan y Cyngor.

(ii) Penderfynir hyd a natur contract y Dirprwy Is-Gangellorion gan y Cyngor.

(iii) Pennir dyletswyddau a swyddogaethau'r Dirprwy Is-Gangellorion gan y Cyngor ac fe'u harferir yn ôl penderfyniad yr Is-Ganghellor, gan gynnwys bod yn atebol i'r Is-Ganghellor am oruchwylio gofynion yr Ordinhadau a'r Rheoliadau ynghylch Disgyblu.

(iv) Yn absenoldeb yr Is-Ganghellor, bydd yr Is-Gangellorion yn gyfrifol am weithrediad effeithlon ac effeithiol y Brifysgol.

(v) Bydd Dirprwy Is-Ganghellor yn gweithredu'n Ddirprwy Gadeirydd y Senedd a'r pwyllgorau hynny y mae'r Is-Ganghellor yn aelod ex-officio ohonynt a bydd yn llywyddu yn y cyrff hynny yn absenoldeb yr Is-Ganghellor.

(vi) Bydd y Dirprwy Is-Gangellorion â hawl i fod yn bresennol ymhob pwyllgor a sefydlir gan y Cyngor.

**i) Pro Is-Gangellorion**

(i) Penodir y Pro Is-Gangellorion gan y Cyngor.

(ii) Bydd y Pro Is-Gangellorion yn benodiadau parhaol.

(iii) Pennir dyletswyddau a swyddogaethau'r Pro Is-Gangellorion gan y Cyngor ac fe'u harferir ganddynt yn ôl penderfyniad yr Is-Ganghellor, gan gynnwys bod yn gyfrifol i'r Is-Ganghellor am oruchwylio gofynion yr Ordinhadau a'r Rheoliadau ynghylch Disgyblu.

## 2. Staff y Brifysgol

(i) Penodir staff heblaw'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion, y Pro Is-Gangellorion a Chlerc y Cyngor yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Brifysgol fel y'i cadarnheir gan y Cyngor.

(ii) Gwneir darpariaethau ar gyfer Diswyddo staff yn Statud X ac Ordinhad V (6).

(iii) Ac eithrio yn unol â darpariaethau'r Statud, arferir holl swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â phenodi a dyrchafu staff y Brifysgol gan bwyllgorau a sefydlir at y diben hwn gan yr Is-Ganghellor.

(iv) Bydd gan y pwyllgorau bŵer i ddirprwyo, ar amodau a benderfynir gan y Cyngor, unrhyw rai o'u swyddogaethau i bwyllgorau neu is-bwyllgorau a ffurfir o'u nifer eu hun neu a benodir ganddynt fel arall, neu i unigolion o fewn y Brifysgol.

(v) Penderfynir dyletswyddau Deon, Profost Campws, Cyfarwyddwr, neu Bennaeth Athrofa, Adran, Canolfan neu uned arall, ac ar gyfer cyfarwyddo a gweinyddu endidau o'r fath, gan yr Is-Ganghellor.

(vi) Nod y Brifysgol yw darparu proses recriwtio a dethol a gynllunnir ac a weithredir yn dda, sy'n amserol ac wedi'i seilio ar deilyngdod, sy'n arwain at benodi staff o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion y swydd ac sy'n cefnogi cyfeiriad strategol y Brifysgol.

(vii) Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i bolisi cynhwysfawr o Gyfle Cyfartal mewn Cyflogaeth sy'n gyson ag Erthygl V.1 y Siarter a lle'r ymdrinnir â phob unigolyn ar sail ei rinweddau a'i alluoedd perthnasol. Ceisia'r Brifysgol hyrwyddo arferion recriwtio a dethol da a theg.

(viii) Disgwylir i bawb sy'n ymwneud â recriwtio a dethol staff gadw at bolisi a gweithdrefnau Recriwtio a Dethol y Brifysgol a sicrhau bod eu gweithredoedd yn gyson ag egwyddorion y gweithdrefnau hyn. Rhaid bod pob aelod o bob Panel Dethol, fel y bo'n

briodol i'r swydd ac yn gyson â'r polisi, wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn recriwtio a dethol.

(ix) Ni fydd rhywun y rhoddwyd cyfnod sabothol iddo/iddi am gyfnod o amser yn ymgymryd ag unrhyw rai o'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'i swydd barhaol o fewn y Brifysgol yn ystod cyfnod sabothol o'r fath, oni bai ei bod yn ofynnol iddo/iddi wneud yn unol â chyfarwyddiadau'r Is-Ganghellor.

## 3. Cyfnod Prawf

(i) Yn ôl y drefn arferol, mae'n ofynnol i'r holl unigolion newydd a benodwyd dreulio cyfnod prawf mewn perthynas â'i gyflogaeth gyda'r Brifysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus yn amod cyflogaeth. Mae'r Brifysgol yn ystyried y cyfnod prawf yn gam cadarnhaol sy'n ceisio cynorthwyo unigolion newydd a benodwyd i drosglwyddo'n effeithiol i swydd newydd a hynny mor ddidrafferth â phosibl.

(ii) Mae nodau a diben cyfnod prawf fel a ganlyn:

- Monitro, asesu a rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithiwr cyflogedig lle bo angen;
- Sicrhau bod gweithwyr cyflogedig wedi cael pob cyfle i addasu i'r dyletswyddau sy'n gymesur â'r swydd neu'r rôl y'u penodwyd iddi; a
- Galluogi gweithiwr cyflogedig a'r Brifysgol i benderfynu cydnawsedd y naill a'r llall o fewn cyd-destun y gweithle.

(iii) Nodir y weithdrefn sydd i'w dilyn yn ystod ac ar ddiwedd y cyfnod prawf yn y Polisi Cyfnod Prawf, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(iv) Nid yw darpariaethau Statud X a'r Ordinhad hon yn lleihau effaith y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu gweithwyr cyflogedig.

## 4. Athrawon, Athrawon Cyswllt a Darllenwyr

(i) Gall y Brifysgol ddyfarnu teitlau Athro, Athro Cyswllt a Darllenydd i aelodau o staff Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant sy'n gallu dangos cyflawniad rhagorol o ran hyrwyddo gwybodaeth, hyrwyddo dysg, drwy gydnabyddiaeth a statws proffesiynol neu drwy arwain a rheoli academaidd. Nodir y broses a'r meini prawf dethol cyflawn ar gyfer dyfarnu'r teitlau hyn yn yr Atodiad.

(ii) Gellir dyfarnu'r teitl Athro Emeritws i gyn-aelodau staff ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf a bennir gan y Senedd a'r Cyngor.

## 5. Egwyddorion Cyffredinol Dehongli a Chymhwyso

(i) Cymhwysir a dehonglir unrhyw Ordinhadau neu Reoliadau mewn modd a fydd yn rhoi'r egwyddorion arweiniol a nodir yn Statud X, cymal 2 mewn grym. Pan fydd aelod o staff yn apelio at Statud X, cymal 2, ystyrir yr hawliad hwnnw gan yr unigolyn neu'r unigolion sy'n delio â'r mater.

(ii) Bydd y Brifysgol yn rhoi sylw i adrannau VI a VII yr Argymhelliad ynghylch Statws Personél Addysgu ym maes Addysg Uwch a fabwysiadwyd gan Gynhadledd Gyffredinol Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) ym Mharis ar 11 Tachwedd 1997.

## 6. Diswyddo, Gweithdrefnau Cwyno a Materion Cysylltiedig (Statud X, Rhan I)

### a) Diswyddo ar sail Achos Da

(i) Caiff aelodau o staff eu diswyddo ar sail achos da, fel y'i diffinnir yn Statud II, ac yn gyson ag adran 98 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

(ii) Nodir y weithdrefn ar gyfer diswyddo aelodau o staff, ac eithrio'r Is-Ganghellor a staff yn eu cyfnod prawf, yn y Polisi Disgyblu, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(iii) Noda Statud X - Atodiad: Darpariaethau yn ymwneud â'r Is-Ganghellor, y weithdrefn ar gyfer symud yr Is-Ganghellor o'i swydd.

### b) Diswyddo o fewn y Cyfnod Prawf

Nodir y weithdrefn ar gyfer diswyddo staff o fewn eu cyfnod prawf yn y Polisi Cyfnod Prawf, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

### c) Diswyddo drwy Ddileu Swyddi (Statud X, Rhan II)

(i) Pryd bynnag y bo'n bosibl, dymuna'r Brifysgol osgoi gorfod diswyddo staff oherwydd dileu swyddi. Os na ellir osgoi dileu swyddi bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn rhybuddio gweithwyr cyflogedig a effeithir arnynt ac yn ymgynghori â nhw, yn mabwysiadu gweithdrefn ddethol deg ac yn ystyried cyflogaeth arall fel modd o osgoi diswyddiadau. Ymdrinnir â diswyddo oherwydd dileu swyddi - Statud X, 1, Rhan II (heblaw am beidio ag adnewyddu contract cyfnod penodol) yn unol â'r gweithdrefnau a nodir ym Mholisi Rheoli Newid y Brifysgol, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(ii) Bydd gan ddileu swydd yr un ystyr ag yn adran 139 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

(iii) Bydd y Brifysgol yn ymgynghori â chynrychiolwyr priodol yn unol ag adran 188 Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 ac i'r graddau y mae hynny'n ofynnol gan yr adran hon o'r ddeddf, a thrwy drafodaeth â'r staff dan sylw.

(iv) Ni fydd y pŵer i ddiswyddo a'r gweithdrefnau a bennir dan y Rhan hon yn berthnasol i'r staff hynny a ddiffinnir yn isadrannau (3) i (6) adran 204 Deddf Diwygio Addysg 1988 (staff a benodwyd cyn 20 Tachwedd 1987 ac nac ydynt wedi eu dyrchafu ar ôl hynny), a fydd at y diben hwn yn parhau i fod yn destun pwerau, os oes rhai, a gymhwyswyd iddynt cyn cyflwyno'r Statud a wnaethpwyd gan y Comisiynwyr Prifysgol wrth arfer eu pwerau dan adrannau 203 a 204 Deddf Diwygio Addysg 1988.

(v) Ni fydd y Rhan hon yn berthnasol i beidio ag adnewyddu contract cyfnod penodol, yr ymdrinnir ag ef dan gymal 6.f isod.

(vi) Bydd cyflogai a fydd yn cael ei ddiswyddo oherwydd dileu swyddi â'r hawl i apelio i is-bwyllgor apeliadau Cyngor y Brifysgol. Bydd yr is-bwyllgor apeliadau â'r hawl i adolygu pob agwedd ar y mater. Nodir y weithdrefn ar gyfer penodi is-bwyllgor apeliadau Cyngor y Brifysgol mewn atodiad i'r Polisi Rheoli Newid.

**d) Diswyddo ar Sail Camau Disgyblu (Statud X, Rhan III)**

(i) Cydnabyddir yn llwyr fod gweithwyr cyflogedig y Brifysgol at ei gilydd yn ymddwyn mewn ffordd briodol a rhesymol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol, er mwyn cynnal gweithgarwch y Brifysgol ac er diogelwch a lles ei holl weithwyr cyflogedig, fod gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer disgyblu aelodau o staff ar sail camymddwyn a pherfformiad anfoddhaol.

(ii) Mae'r Polisi Disgyblu, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, yn berthnasol i'r holl staff, ac eithrio staff o fewn eu cyfnod prawf.

**e) Diswyddo ar Sail Iechyd neu Anallu (Statud X, Rhan IV)**

(i) Dymuna'r Brifysgol sicrhau y gall yr holl weithwyr cyflogedig gyflawni'u dyletswyddau dan gontract yn effeithiol yn y gweithle a derbyn cefnogaeth briodol pan fo unrhyw anawsterau o ran perfformiad.

(ii) Nodir y weithdrefn a gymhwysir gan y Brifysgol i'r holl staff, ac eithrio staff o fewn eu cyfnod prawf, yn y Polisi Gallu, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(iii) Cyfeiria Anallu fel y'i diffinnir yn Statud X at sgil, dawn, iechyd (corfforol neu feddyliol) neu unrhyw nodwedd gorfforol neu feddyliol arall ac mae'n gyson ag adran 98 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

(iv) Mae'r Polisi Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, yn cefnogi'r Polisi Gallu drwy nodi gweithdrefnau ar gyfer delio ag absenoldeb oherwydd salwch tymor byr a thymor hir. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff, ac eithrio staff yn eu cyfnod prawf.

(v) Ni ellir diswyddo unrhyw aelod o staff os byddai'r diswyddo hwnnw'n mynd yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

(vi) Mae'r ddarpariaeth ar gyfer symud yr Is-Ganghellor o'i swydd oherwydd anallu ar sail feddygol yn dilyn y weithdrefn a nodir yn y Polisi Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch yn amodol ar yr addasiadau a nodir yn Statud X – Atodiad: Darpariaethau yn ymwneud â'r Is-Ganghellor.

**f) Diswyddo ar unrhyw Sail arall (Statud X, Rhan V)**

(i) Mae adran 98 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn nodi'r rhesymau teg dros ddiswyddo.

(ii) Mae'r Polisi Rheoli Newid, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, yn ogystal â'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddileu swyddi, hefyd yn nodi gweithdrefnau y bydd y Brifysgol yn eu dilyn mewn perthynas â diswyddiadau eraill. Nodir y weithdrefn ar gyfer terfynu contract cyfnod penodol mewn polisi penodol. Bydd darpariaethau'r Ordinhad hon yn rhoi sylw i Reoliadau

Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2002 ("y Rheoliadau Cyfnod Penodol").

## 7. Gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno

### a) Cod Ymarfer

Wrth lunio polisïau a gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno mae'r Brifysgol wedi rhoi sylw i adran 1 ac adran 2 y Cod Ymarfer ar Weithdrefnau Disgyblu a Chwynion Cyflogaeth (fel y caiff ei ddiwygio neu ei ddisodli o bryd i'w gilydd) a ryddhawyd gan y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) dan adran 199 Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 a ddaeth i rym drwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol ar 6 Ebrill 2009.

### b) Polisi Disgyblu

(i) Mae Polisi Disgyblu'r Brifysgol, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, yn cynnig gweithdrefnau anffurfiol a ffurfiol sy'n berthynol i'r honiadau a wneir. Rhoddir yr hawl i staff gael rhywun yn gwmni iddynt fel yr eglurir yn y polisi.

(ii) Os yw'n briodol, gellir atal yr aelod o staff o'r gwaith dros dro tra ystyrir y mater. Dylid trafod y rheswm neu'r rhesymau dros atal o'r gwaith dros dro a'r gofynion yn ystod y cyfnod atal hwnnw mewn cyfarfod gyda'r aelod o staff. Cadarnheir y trefniadau'n ysgrifenedig. Os nad yw'n bosibl cwrdd â'r aelod o staff, anfonir hysbysiad ysgrifenedig at yr aelod o staff a threfnir dyddiad cyfarfod i drafod y rhesymau dros atal o'r gwaith dros dro a'r trefniadau yn ystod y cyfnod atal hwnnw.

(iii) Bydd gan yr aelod o staff hawl i apelio fel y'i nodir yn y Polisi Disgyblu.

### c) Ymchwiliadau i Honiadau o Gamymddwyn mewn perthynas ag Ymchwil

(i) Ymgymerir ag ymchwiliadau i honiadau o gamymddwyn mewn perthynas ag ymchwil yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(ii) Mae'n bosibl y dygir honiadau o gamymddwyn mewn perthynas ag ymchwil i sylw'r Brifysgol yn fewnol neu'n allanol gan unigolyn neu gan sefydliad. Beth bynnag bo ffynhonnell yr honiad, bydd y Brifysgol yn ceisio sicrhau y ceir cyfiawnder, ac y caiff ei weld, ar gyfer y parti sy'n cwyno a'r parti cyhuddedig. Bwrir ymlaen â chwynion bona fide gydag uniondeb a chyfrinachedd a gwneir pob ymdrech i sicrhau yr â'r ymchwiliad yn ei flaen heb niwed i'r achwynydd na'r cyhuddedig. Mae staff â hawl i ddisgwyl yr ystyrir eu gwaith ymchwil yn waith gonest, nes y'i dangosir fel arall, ac y cânt eu hamddiffyn rhag cwynion di-sail, disylwedd, niweidiol neu faleisus; bydd yr egwyddor hon yn arwain gweithdrefnau'r Brifysgol.

(iii) Bydd y Brifysgol yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, yr ymdrinnir â thrafodion unrhyw ymchwiliad fel rhai cyfrinachol. Fodd bynnag, pan fo gwrthdaro rhwng yr angen am gyfrinachedd a'r angen i geisio'r gwirionedd, rhaid i'r ail gael y flaenoriaeth.

d) **Polisi Cwyno (Statud X, Rhan VI)**

(i) Nod y Brifysgol yw darparu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol ond mae'n cydnabod y gall materion godi rhwng cydweithwyr neu gyda gofynion gwaith, neu o ran disgwyliadau cyflogeion.

(ii) Mae'r Brifysgol yn ceisio datrys unrhyw gwynion unigol a godir gan aelodau o staff yn gyflym ac yn anffurfiol pan fo hyn yn bosibl ond mae'n cydnabod y bydd rhai cwynion yn gofyn am ddull mwy ffurfiol. Mae'r Polisi Cwyno, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer datrys ac unioni cwynion. Mae'r Polisi yn berthnasol i'r holl staff.

## 8. Datgeliadau er Lles y Cyhoedd

(i) Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o ran bod yn agored, uniondeb ac atebolrwydd. Ceisia gynnal ei busnes mewn modd cyfrifol, gan gymryd i ystyriaeth ofynion y cyrff cyllido a safonau bywyd cyhoeddus a nodir yn adroddiadau'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Mae polisi a gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer Datgelu er Lles y Cyhoedd neu 'Chwythu'r Chwiban' yn rhan o Reoliadau Ariannol y Brifysgol.

## Ordinhad VI: Myfyrwyr

### 1. Myfyrwyr y Brifysgol

#### a) Matriciwleiddio

(i) Matriciwleiddio yw cofrestru myfyriwr yn ffurfiol yn y Brifysgol i ddilyn cwrs astudio sy'n arwain at ddyfarniad a enwir.

(ii) Ar gyfer gradd gyntaf, bydd ymgeiswyr matriciwleiddio o leiaf 17 (dwy ar bymtheg) oed ar ddiwrnod cyntaf mis Hydref ym mlwyddyn gyntaf eu hymgeisyddiaeth a byddant wedi llwyddo mewn arholiad a gymeradwyir gan y Senedd fel cymhwyster ar gyfer matriciwleiddio neu wedi'u heithrio o hynny gan y Senedd dan amodau a bennir gan Reoliadau. Bydd y pŵer gan yr Is-Ganghellor i lacio'r amod ynghylch oed mewn achosion eithriadol.

(iii) Wrth iddynt fatriciwleiddio gyda'r Brifysgol bydd myfyrwyr yn talu'r ffi a bennir gan Reoliadau ac yn darparu'r holl ddata personol ar gyfer y Brifysgol y mae eu hangen i gydymffurfio â gofynion statudol y cyrff cyllido ac asiantaethau eraill y llywodraeth, yn cynnwys eu dyddiad geni. Rheolir y defnydd o'r data hyn gan delerau cofrestriad y Brifysgol dan y Ddeddf Diogelu Data.

(iv) Bydd matriciwleiddio yn cyflwyno breintiau aelodaeth myfyrwyr yn y Brifysgol fel y bo'n briodol i'r dosbarthiadau priodol o fyfyrwyr a bydd yn eu rhoi dan orfodaeth i gydymffurfio â rheolau'r Brifysgol ac i ufuddhau i awdurdodaeth y Senedd.

#### b) Myfyrwyr Cofrestredig

(i) Gellir terfynu cofrestriad fel myfyriwr unrhyw fyfyriwr sy'n methu â bodloni'r arholwyr mewn unrhyw arholiad a bennir yn y Rheoliadau Academaidd neu gan y Senedd ar gyfer y cwrs astudio a ddilynir.

(ii) Heblaw am fethu unrhyw arholiad, terfynir cofrestriad fel myfyriwr ar sail academaidd yn unol â gweithdrefn a osodir gan y Senedd a fydd yn rhoi cyfle i'r myfyriwr gyflwyno sylwadau.

(iii) Gan weithredu'n unol â Rheoliadau Academaidd a gymeradwyir gan y Senedd, gall yr Is-Ganghellor ohirio neu derfynu'r cofrestriad fel myfyriwr, neu beidio â chyflwyno dyfarniad gradd, diploma neu dystysgrif ac atal y dystysgrif ar gyfer y dyfarniad hwnnw yn achos unrhyw fyfyriwr sydd mewn dyled i'r Brifysgol.

(iv) Bydd y Senedd yn sefydlu gweithdrefnau i gyflwyno neu i dynnu'n ôl unrhyw radd, diploma, tystysgrif neu ddyfarniad, cymhwyster, gwobr neu anrhydedd arall a ddyfarnwyd gan y Brifysgol a'r holl freintiau a gysylltir ag ef/hi, os darganfyddir ar unrhyw adeg ac y profir yn foddhaol yng ngolwg y Senedd y bu unrhyw achos arwyddocaol o afreoleidd-dra yn y digwyddiadau neu'r amgylchiadau a arweiniodd at ddyfarnu'r radd, y diploma, y dystysgrif neu unrhyw ddyfarniad, cymhwyster, gwobr neu anrhydedd arall.

## 2. Yr Undeb Myfyrwyr

(i) Mae Siarter Atodol y Brifysgol yn darparu ar gyfer Undeb Myfyrwyr. Bydd yr Undeb Myfyrwyr yn pennu'i hunaniaeth yn unol â'i Gyfansoddiad.

(ii) Bydd cyfansoddiad yr Undeb Myfyrwyr yn amodol ar gymeradwyaeth Cyngor y Brifysgol ar gyfnodau o nid llai na 5 mlynedd.

(iii) Nod yr Undeb Myfyrwyr yw hyrwyddo addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant er lles y cyhoedd drwy'r canlynol:

a) Hybu buddiannau a lles myfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn ystod eu rhaglen astudio a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr;

b) Bod yn sianel gynrychiadol gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant ac unrhyw gyrff allanol eraill; a

c) Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, adloniadol a chwaraeon, ynghyd â fforymau ar gyfer trafodaethau a dadleuon er datblygiad personol ei Fyfyrwyr.

## 3. Cod Disgyblaeth Myfyrwyr

(i) Mae Erthygl IV Siarter y Brifysgol yn trosglwyddo pŵer y Brifysgol i bennu darpariaethau disgyblu y bydd myfyrwyr y Brifysgol neu unigolion eraill sy'n defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol yn rhwym wrthynt.

(ii) At ddibenion disgyblu, mae chwe maes neu weithgaredd o awdurdodaeth:

a) Tir ac adeiladau'r Undeb Myfyrwyr a gweithgareddau'r Undeb Myfyrwyr, boed hynny o fewn tir ac adeiladau'r Brifysgol ai peidio;

b) Y preswylfeydd a gweithgareddau'r preswylfeydd boed hynny o fewn tir ac adeiladau'r Brifysgol ai peidio;

c) Adeiladau adrannau a gweithgareddau adrannau'n cynnwys teithiau maes;

d) Ardaloedd eraill o'r Brifysgol;

e) Camymddwyn o natur sy'n debygol o effeithio ar enw a statws da'r Brifysgol gydag unrhyw rai o'i rhanddeiliaid a/neu'r gymuned ehangach; a

f) Chamddefnyddio cyfleusterau neu weithgareddau cyfrifiadurol.

(iii) Cyhoeddir y weithdrefn sy'n ymwneud â disgyblu myfyrwyr ar wefan y Brifysgol.

## 4. Gweithdrefn ar gyfer Delio â Chwynion gan Fyfyrwyr

(i) Anela'r Brifysgol at ddarparu'r safonau uchaf o ran addysgu ac at ddarparu'r profiad llawnaf o fywyd Prifysgol; at hynny ymdrecha'r Brifysgol i gyflawni safon o berfformiad gweinyddol cyffredinol, yn nhermau ansawdd gwasanaeth ac effeithlonrwydd

gweithredu, sy'n ategu ac yn atgyfnerthu rhagoriaeth ei haddysgu a'i hymchwil. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod, os bydd myfyrwyr yn ystyried bod ganddynt sail i gwyno ynghylch gwasanaethau academaidd neu wasanaethau gweinyddol, dylai gweithdrefn eglur, gyson fod ar gael y gellir ymchwilio i'r cwynion hyn a'u hystyried drwyddi.

(ii) Nodir y weithdrefn ar gyfer delio â chwynion gan fyfyrwyr yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

(iii) Nid yw'r Ordinhad hon yn cwmpasu'r canlynol:

a) Apeliadau Academaidd;

b) Datgeliadau er Lles y Cyhoedd; neu

c) Gwynion am y broses dderbyn.

Pennir gweithdrefnau ar gyfer delio â'r materion hyn yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd neu ar wefan y Brifysgol.

(iv) Pan fydd myfyriwr wedi cwblhau gweithdrefnau cwyno mewnol y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn rhyddhau Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Os yw'r myfyriwr yn parhau i fod yn anfodlon caiff gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch, yn amodol ar y graddfeydd amser ac yn unol â'r gweithdrefnau a nodwyd gan y Swyddfa honno.

(v) Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod cwyn pan gaiff ei gyflwyno:

a) fwy na thri (3) mis ar ôl i fyfyriwr gwblhau ei raglen astudio, tynnu yn ôl ohoni neu gael ei dynnu yn ôl ohoni; a / neu
b) fwy na thair (3) blynedd ar ôl y digwyddiad(au) gwirioneddol y mae'r gwyn yn cyfeirio ato/atynt.

## 5. Cymdeithasau Cyn-fyfyrwyr

(i) Enw Cymdeithas cyn-fyfyrwyr y Brifysgol fydd Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant / University of Wales: Trinity Saint David Alumni Association. Bydd cysylltiadau penodedig â chyn-fyfyrwyr a fydd yn rhoi sylw i'r cysylltiad hanesyddol â Chymdeithas Llambed, cyn-fyfyrwyr Coleg y Drindod Caerfyrddin, Coleg Prifysgol y Drindod a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Abertawe.

(ii) Dan ymbarél Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a hyd y gellir rhagweld, bydd 3 (tair) cymdeithas cyn-fyfyrwyr wedi'u seilio ar y campysau i adlewyrchu hanes a thraddodiadau pob campws.

(iii) Mae amcanion y Gymdeithas fel a ganlyn:

a) hyrwyddo perthynas fuddiol rhwng y Brifysgol, cyn-fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill;

b) hyrwyddo a chefnogi grwpiau cyn-fyfyrwyr a'u gweithgareddau;

c) hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Brifysgol;

d) cynrychioli barn cyn-fyfyrwyr a chynghori'r Brifysgol;

e) annog a helpu gyda chyfathrebu effeithiol rhwng y Brifysgol, grwpiau cyn-fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr unigol; a

f) helpu'r Brifysgol i godi cyllid gan gyn-fyfyrwyr ac eraill.

(iv) Bydd aelodau'r Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr fel a ganlyn:

- Aelodau Cymdeithas Llambed;
- Aelodau cyn-fyfyrwyr Coleg y Drindod Caerfyrddin;
- Aelodau cyn-fyfyrwyr Coleg Prifysgol y Drindod;
- Aelodau cyn-fyfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Abertawe;
- Cyn-fyfyrwyr y Brifysgol sydd wedi cwblhau cwrs neu gyfnod astudio cydnabyddedig;
- Staff a chyn-staff y Brifysgol a'i cholegau rhagflaenol, gan gynnwys staff gwadd a chymrodyr;
- Aelodau cyfredol a chyn-aelodau o Gyngor y Brifysgol;
- Graddedigion er anrhydedd; ac
- Unigolion fel y'i pennir gan Fwrdd y Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr.

(v) Bydd Cyfansoddiad y Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr yn amodol ar gymeradwyaeth Cyngor y Brifysgol ar gyfnodau o nid llai na 5 (phum) mlynedd.

## Atodiad

## 1. Proses ar gyfer Penodi Athrawon, Athrawon Cyswllt a Darllenwyr

Sefydlir Pwyllgor Penodi i ystyried ceisiadau am y dyfarniadau hyn. Adroddir ar yr holl argymhellion a wneir gan y Pwyllgor hwn wrth y Senedd a'r Cyngor i'w cadarnhau.

### a) Proses: Athrawon ac Athrawon Cyswllt

#### (i) Cam Un

Dylai aelodau o'r staff sydd am wneud cais am gyflwyno iddynt deitl Athro neu Athro Cyswllt ymgynghori yn y lle cyntaf â'r Is-Ganghellor. Y cam cyntaf fydd cyflwyno llythyr cais a gefnogir gan curriculum vitae.

Bydd yr Is-Ganghellor yn penderfynu a oes achos prima facie ar gyfer cyflwyno'r cais i Bwyllgor Penodi.

Os ystyria'r Is-Ganghellor nad oes achos prima facie wedi'i ddangos, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y rhesymau. Bydd cyfle am adborth pellach ar ddatblygiad personol yr ymgeisydd.

Os bydd ymgeisydd wedi'i dramgwyddo gan benderfyniad yr Is-Ganghellor i beidio â chyflwyno'r cais i Bwyllgor Penodi, caiff ef neu hi wneud cais i'r Is-Ganghellor gael adroddiad annibynnol gan asesydd allanol a rhoi ystyriaeth bellach i'r cais. Bydd unrhyw benderfyniad yn dilyn adolygiad allanol annibynnol yn derfynol.

Caiff ymgeiswyr enwebu 5 (pum) canolwr.

#### (ii) Cam Dau

Sefydlir Pwyllgor Penodi.

### b) Meini Prawf Dyfarnu

#### (i) Ar gyfer Teitl "Athro"

Gellir dyfarnu teitl Athro i staff y Brifysgol y gellir eu hystyried yn rhagorol mewn o leiaf 1 (un) o'r categorïau canlynol ac sy'n uchel eu cyflawniad mewn o leiaf 1 (un) arall:

1. Cyfraniad sylweddol i gynyddu gwybodaeth trwy ymchwil, ysgolheictod, cyhoeddi, trosglwyddo gwybodaeth neu ymarfer proffesiynol y disgwylid iddo fod yn rhyngwladol ei gwmpas.

2. Cyfraniad sylweddol i gynyddu dysg trwy arwain datblygiad ym maes addysgu a'r cwricwlwm.

3. Cydnabyddiaeth broffesiynol a statws ymhlith cymheiriaid.

4. Arweinyddiaeth a rheolaeth academaidd strategol.

#### (ii) Ar gyfer Teitl "Athro Cyswllt"

Gellir dyfarnu teitl Athro Cyswllt i staff y Brifysgol y gellir eu hystyried yn rhagorol mewn o leiaf 1 (un) o'r categorïau canlynol ac sy'n uchel eu cyflawniad mewn o leiaf 1 (un) arall:

1. Cyfraniad i gynyddu gwybodaeth trwy ymchwil, ysgolheictod, cyhoeddi, trosglwyddo gwybodaeth neu ymarfer proffesiynol y disgwylid iddo fod yn genedlaethol ei gwmpas.

2. Cyfraniad i gynyddu dysg trwy arwain datblygiad ym maes addysgu a'r cwricwlwm.

3. Cydnabyddiaeth broffesiynol a statws ymhlith cymheiriaid.

4. Arweinyddiaeth a rheolaeth academaidd.

## c) Y Broses Benodi

Bydd y Pwyllgor Penodi yn cynnwys y canlynol:

- Yr Is-Ganghellor (Cadeirydd);
- Dirprwy Is-Gangellorion
- 1 (un) Athro, sy'n allanol i Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, i fod yn aelod parhaol (a enwebir gan yr Is-Ganghellor ac, os yw'n bosibl, i fod yn aelod allanol o'r Pwyllgor Ymchwil). Efallai y bydd gofyn i'r aelod hwn ddarparu barn trwy ohebiaeth; a
- 3 (tri) unigolyn allanol, a enwebir gan y Cadeirydd, a fydd yn bobl o statws priodol sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am y pwnc dan sylw neu am bwnc cytras, y bydd 1 (un) ohonynt fel arfer yn aelod o'r staff athrawol mewn sefydliad arall. Gellir enwebu'r unigolion allanol hyn o'r rhestr a ddarperir gan yr ymgeisydd ond ni fyddent yn cynnwys y rheini y gofynnwyd iddynt am eirda yng Ngham I. Gofynnir i'r ail set hon o unigolion allanol roi barn ar yr ymgeiswyr drwy ohebiaeth ac os cyfwelir yr ymgeiswyr bydd o leiaf 1 (un) o'r unigolion allanol (a enwebir gan yr Is-Ganghellor) yn ymuno â'r panel cyfweld.

Penodir clerc i gefnogi gwaith y Pwyllgor Penodi. Bydd ef neu hi'n darparu copïau o'r holl dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor:

1. Datganiad gan yr ymgeisydd i gefnogi'r cais;

2. Curriculum vitae yr ymgeisydd;

3. Rhestr cyhoeddiadau;

4. Adroddiadau canolwyr.

Gall y Pwyllgor hefyd ystyried ceisiadau am fod yn Ddarllenydd neu am Gadair Bersonol trwy ohebiaeth, er bod modd trefnu cyfarfod ffurfiol yn ôl disgresiwn yr Is-Ganghellor neu ar gais unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor.

Nodir y meini prawf sydd i'w defnyddio gan y Pwyllgor wrth ystyried ymgeiswyr yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Gall cydbwysedd y meini prawf hyn amrywio mewn achosion unigol, yn enwedig yn achos ysgolheigion ac ymchwilwyr rhagorol.

Dylai'r Pwyllgor gytuno, naill ai'n unfryd neu drwy fwyafrif dros bawb, y dylid cymeradwyo cais. Wedyn cyflwynir yr argymhelliad i'r Senedd ac i'r Cyngor i'w gadarnhau.

Os bydd y Pwyllgor yn cytuno, naill ai'n unfryd neu drwy fwyafrif, na ddylid cymeradwyo cais, bydd yr Is-Ganghellor yn siarad â'r ymgeisydd ac yn rhoi rhesymau a sylwadau'r Pwyllgor.

Os bydd ymgeisydd wedi'i dramgwyddo gan benderfyniad y Pwyllgor i beidio ag argymell dyrchafiad, gall ef neu hi ofyn i'r Is-Ganghellor gael asesiadau annibynnol pellach. Yn yr achos hwn, bydd yr Is-Ganghellor yn cyfeirio'r dystiolaeth ychwanegol i'r Pwyllgor i'w hystyried ymhellach. Wedyn bydd penderfyniad y Pwyllgor yn derfynol.

Ni chaiff ymgeisydd sydd wedi gwneud cais aflwyddiannus am gyflwyno iddo/iddi deitl Darllenydd wneud cais pellach oddi mewn i gyfnod o 24 (bedwar ar hugain) mis i ddyddiad y penderfyniad a wnaethpwyd ynghylch y cais cynharach.

**d) Tystiolaeth yn Ymwneud â Dysgu gan Fyfyrwyr ac Addysgu Myfyrwyr**

Gallai tystiolaeth o gymhwysedd neu ragoriaeth yn eich addysgu'ch hun gynnwys nifer o'r canlynol:

- Adborth gan fyfyrwyr;
- Arsylwadau cymheiriaid gan gydweithwyr eraill;
- Adroddiadau arholwyr allanol;
- Datblygu deunyddiau addysgu;
- Cyflwyno dulliau addysgu ac asesu arloesol (gydag arddangosiad o'u llwyddiant);
- Goruchwylio nifer o fyfyrwyr ymchwil yn llwyddiannus;
- Cario llwyth addysgu sy'n drymach na'r cyfartaledd (o ran maint ac ehangder) yn gyson;
- Bod ar gael i fyfyrwyr y tu hwnt i oriau cyswllt ffurfiol ac oriau swyddfa;
- Hunanwerthuso; neu
- Gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu staff.

Gallai tystiolaeth o gyfranogiad neu arweinyddiaeth yn natblygiad dysgu ac addysgu yn yr adran gynnwys y canlynol:

- Gweithredu'n gydlynydd ar gyfer modwl sy'n cynnwys nifer o athrawon;
- Gweithredu'n gyfarwyddwr neu'n gydlynydd rhaglen;
- Cyflwyno modwl neu fodylau newydd neu ddiwygio modwl cyfredol yn sylweddol;
- Cyflwyno rhaglen neu raglenni newydd neu ddiwygio rhaglen gyfredol yn sylweddol;

- Cyflwyno dulliau addysgu arloesol a fabwysiedir gan gydweithwyr;
- Datblygu a hyrwyddo deunyddiau addysgu arloesol;
- Gweithredu'n fentor ar gyfer cydweithwyr a benodwyd yn ddiweddar; neu
- Chwarae rôl weithredol mewn pwyllgor adrannol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu.

Gallai tystiolaeth o gyfranogiad neu arweinyddiaeth yn natblygiad dysgu ac addysgu ar draws y Brifysgol gynnwys y canlynol:

- Arwain seminarau ar ddysgu ac addysgu neu asesu;
- Trefnu gweithgareddau yn y Brifysgol sy'n debygol o gyfoethogi dysgu ac addysgu neu asesu;
- Gwasanaethu ar yr EPSC neu'r Senedd;
- Siarad am ddatblygiadau dysgu ac addysgu mewn sefydliadau eraill;
- Gweithredu'n arholwr allanol;
- Cyhoeddi gwerslyfr myfyrwyr, deunyddiau addysgu neu gymhorthion addysgu; neu
- Gyfranogiad gyda'r Academi Addysg Uwch, yr ASA neu â chyrff allanol priodol eraill sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu.